



CYNGOR BRO MORGANNWG
CYNLLUN GWELLA ac
AMCANION LLESIANT Rhan I 2019/20

EBRILL 2019

Cymunedau
Cryf â
Dyfodol
Disglair

Gallwch ofyn am y ddogfen hon mewn ffurfiau eraill.
Er enghraifft: ffont mwy; ar bapur lliw gwahanol

www.bromorgannwg.gov.uk

CYNNWYS

Cyflwyniad	2
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	3
Cynllun Corfforaethol 2016-2020	4
Ein Hamcanion (Gwella) Llesiant 2019/20	5
Cyhoeddi ein Hamcanion (Gwella) Llesiant am 2019/20.....	10
Adolygu ac adrodd am ein cynnydd	9
Sut i ddod yn rhan	9
Amcan Llesiant 1: Lleihau tlodi ac allgau cymdeithasol.....	11
Amcan Llesiant 2: Darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel.....	14
Amcan Llesiant 3: Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth	17
Amcan Llesiant 4: Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a gwarchod ein hamgylchedd. .	20
Amcan Llesiant 5: Codi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol	23
Amcan Llesiant 6: Rhoi Gwerth ar Ddiwylliant ac Amrywiaeth	26
Amcan Llesiant 7: Annog a hyrwyddo dulliau bywiog ac iach o fyw	29
Amcan Llesiant 8: Diogelu'r sawl sy'n fregus a hyrwyddo byw yn annibynnol.....	31
Lechyd Corfforaethol	35
Atodiad A: Amcanion Llesiant	50
Atodiad B: Sut mae ein Hamcanion Lles yn cyfrannu at y Nodau Lles Cenedlaethol...	51
Atodiad C: Sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg	52
Atodiad D: Sut y byddwn yn mesur llwyddiant	53.

Cyflwyniad

Mae gan Gyngor Bro Morgannwg ddyletswydd i anelu at ragoriaeth, gwelliant ac effeithlonrwydd o ran cyflwyno deilliannau i drigolion y Fro. Rhaid i ni wneud hyn o fewn ein sefydliad a thrwy weithio gyda chynghorau eraill, Llywodraeth Cymru a chyrff eraill y sector cyhoeddus yn ogystal â'r cymunedau sy'n ffurfio Bro Morgannwg.

Ar gychwyn pob blwyddyn ariannol, mae gofyn i ni gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 osod a chyhoeddi Amcanion (yr ydym ni'n eu galw yn Amcanion Llesiant) mewn Cynllun Gwella. Trwy gynhyrchu'r cynllun hwn gall trigolion weld beth y bwriadwn wneud dros y flwyddyn sydd i ddod a'r hyn y gallant ddisgwyl ei weld, o ran deilliannau, trwy i ni weithio tuag at yr Amcanion Llesiant hyn.

Er bod y cynllun hwn yn canolbwyntio'n benodol ar ein Hamcanion Llesiant, yr ydym yn dal i geisio cael gwelliannau mewn meysydd eraill. Mae gwelliannau a gynlluniwyd yn ein gwaith beunyddiol wedi eu gosod allan yn ein Cynlluniau gwasanaeth y gellir mynd atynt o'n gwefan. Mewn cyfnod pan fo cyfyngiadau difrifol ar gyllidebau, mae'n bwysig fod gan y Cyngor gyfeiriad clir ac ymdeimlad o flaenoriaeth gan nad oes modd i ni wneud popeth. Yr ydym wedi ymrwmo i gyflwyno ein Hamcanion Llesiant yng nghyd-destun y gwerthoedd craidd a fabwysiadwyd gennym, sef:

CYNGOR BRO MORGANNWG

UCHELGAIS AGORED

CYDWEITHIO BALCHDER



Uchelgais

Meddwl yn flaengar, croesawu ffyrdd newydd o weithio a buddsoddi yn ein dyfodol.

Agored

Bod yn agored i syniadau gwahanol a bod yn atebol am y penderfyniadau rydyn ni'n eu gwneud.

Cydweithio

Fel tîm sy'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'n partneriaid, yn parchu amrywiaeth ac wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaethau o safon.


Balchder

Rydyn ni'n ymfalchïo ym Mro Morgannwg, ac yn falch o wasanaethau'n cymunedau a bod yn rhan o Gyngor Bro Morgannwg.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ym mis Ebrill 2016. Diben y Ddeddf yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn ceisio gofalu ein bod yn dilyn egwyddor datblygu cynaliadwy trwy wneud yn siŵr **'yr atebir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain'**. Mae'r Ddeddf yn canoli ar wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r ffaith fod yn rhaid i ni weithio tuag at y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol. Gyda'i gilydd, maent yn rhoi gweledigaeth a rennir i'r holl gyrff cyhoeddus weithio tuag atynt.



Gweler **Atodiad A** am ddisgrifiad mwy manwl o bob Nod cenedlaethol.

Sefydlodd y Ddeddf hefyd Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn ardal pob awdurdod lleol er mwyn sicrhau fod sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at y Nodau trwy nodi Amcanion Llesiant a rennir.

Mae'r ddeddf yn ceisio sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn dilyn egwyddor datblygu cynaliadwy. Gwneir hyn trwy bum ffordd o weithio:

Ers i'r Ddeddf ddod i rym, gwnaethom gamau breision o ran cyflawni ein dyletswyddau. Ymysg datblygiadau allweddol mae:

- Sefydlu ein Deilliannau a'n Hamcanion Llesiant ein hunain fel rhan o ddatblygu ein Cynllun Corfforaethol yn 2016;
- Cynhyrchu a chyhoeddi Asesiad Llesiant yn ystod 2017 sydd yn darparu asesiad o'r hyn sy'n dda am fywyd yn y Fro a beth fyddai'n gwella llesiant lleol; a
- Cyhoeddi Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg, 'Ein Bro Ein Dyfodol (2018-2023)' yn 2018 yr oedd canfyddiadau'r Asesiad Llesiant yn sail o wybodaeth iddo.

At y dyfodol, byddwn yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau allweddol fel y'u hamlinellwyd yng Nghynllun Llesiant Bro Morgannwg (2018-2023).

Cynllun Corfforaethol 2016-2020

Ym Mawrth 2016, cyhoeddodd y Cyngor y [Cynllun Corfforaethol](#) y gellir ei weld ar [wefan y Cyngor](#). Mae'r Cynllun yn cynrychioli'r camau y byddwn yn eu cymryd uwchlaw a thu hwnt i weithrediad beunyddiol gwasanaethau'r cyngor ac yn lleisio'r camau blaenoriaeth penodol ar gyfer y Cyngor dros y blynyddoedd i ddod. Wrth gynllunio at y dyfodol, yr ydym wedi ystyried anghenion a barn partneriaid a chwsmeriaid a'n llwyddiannau hyd yma o ran cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol blaenorol. Gosodwyd ein blaenoriaethau yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael a'r heriau sylweddol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r camau hefyd yn adlewyrchu ein parodrwydd i dderbyn syniadau arloesol a ffyrdd newydd o weithio. Yr ydym wedi ystyried sut y bydd y Cyngor yn cyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol a gyhoeddwyd fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 trwy osod Deilliannau ac Amcanion Llesiant yn ogystal â chyfrannu at gyrraedd yr Amcanion Llesiant a osodwyd gan y BGC.

Mae ein pedwar Deiliant Llesiant yn rhoi fframwaith ar gyfer y Cynllun Corfforaethol ynghyd ag wyth Amcan Llesiant. Yn sail i'r rhain, rydym wedi cytuno ar raglen waith uchelgeisiol o ymrwymadau a gweithgareddau y byddwn yn gweithio tuag atynt er mwyn cyfrannu at gyrraedd ein Deilliannau a'n Hamcanion Llesiant. Mae ein Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys mwy o fanylion am gamau, adnoddau, amserlenni ac atebolrwydd am gyflwyno.

Wrth fabwysiadu agwedd fwy cyfun, a fynegir trwy ein Hamcanion Llesiant, byddwn yn cryfhau ein gallu i weithio fel '**un Cyngor**' wrth gyflwyno ein Deilliannau Llesiant:



Bod gan drigolion Bro Morgannwg ansawdd bywyd da a'u bod yn teimlo'n rhan o'r gymuned leol.

Cynnal economi cryf a chynaliadwy ym Mro Morgannwg, a diogelu'r amgylchedd lleol i'r genhedlaeth bresennol a'r cenedlaethau sydd i ddod.

Cyfle i holl drigolion y Fro gyflawni eu llawn botensial.



Trigolion Bro Morgannwff yn byw bywyd iach, a bod pobl fregus yn cael eu gwarchod a'u cefnogi.

Mae gweithredu'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei fonitro'n chwarterol trwy nifer o fforymau, gan gynnwys y Tîm Rheoli Corfforaethol, Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet, yn unol â threfniadau rheoli perfformiad y Cyngor.

Adlewyrchir ein pedwar Deiliant Llesiant yn ein Cynlluniau Gwasanaeth er mwyn sicrhau cysondeb a chanolbwynt. Cynhwyswyd yr Amcanion Llesiant dan bob Deiliant Llesiant yn y Cynlluniau Gwasanaeth perthnasol, a hwy yw'r sylfaen ar gyfer camau allweddol i sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni. Neilltuwyd Cyfarwyddwr noddi i fod yn gyfrifol am bob Deiliant Llesiant ac arwain o ran sicrhau fod cynnydd yn cael ei wneud i gyrraedd y deilliannau y bwriadwn eu cael, gan ddwyn ynghyd gydweithwyr perthnasol o bob adran o'r Cyngor.

Ein Hamcanion (Gwella) Llesiant 2019/20

Mae wyth o Amcanion Llesiant wedi eu nodi fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol ac asiwyd y rhain â'r Nodau Llesiant cenedlaethol (rhai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Mae gan ein Hamcanion Llesiant hefyd gysylltiad agos â'r rhai a nodwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg.

Dan y Ddeddf mae gofyn i ni bob blwyddyn adolygu a chyhoeddi ein Hamcanion Llesiant i werthuso a ydynt yn 'addas at y diben' ai peidio i wneud y mwyaf o'n cyfraniad at y Nodau Llesiant cenedlaethol. Yr ydym wedi adolygu ein Hamcanion Llesiant yn eang ac ymgynghori arnynt trwy wahodd rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'i bartneriaid cysylltiedig, busnesau lleol, Cyngorau Tref a Chymuned a mudiadau'r sector cyhoeddus a'r cyhoedd i wneud sylwadau arnynt. Bu ein Hamcanion Llesiant hefyd yn destun craffu a herio gan yr aelodau etholedig.

Yn ystod 2018/19 fe wnaethom adolygu ein Hamcanion Llesiant trwy:

- **Ein Hadroddiad Blynyddol (2017/18)**

Fel rhan o'n proses asesu blynyddol sydd yn awr yn sail i'r Adroddiad Blynyddol, yr ydym wedi adolygu'r modd y gwnaethom ymateb i'n heriau a'n blaenoriaethau allweddol dros y flwyddyn a aeth heibio ac yr ydym wedi ystyried yr heriau sy'n dod i'r amlwg ac sy'n adlewyrchu ehangder y gweithgareddau a wnawn fel Cyngor, gan gadw mewn cof ar yr un pryd y pum dull o weithio sydd yn sbardun allweddol yn ein fframwaith cynllunio integredig a'n hagwedd 'un cyngor'.

Ar y cyfan, fe wnaethom gyflawni'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau a gynlluniwyd gennym yn ystod 2017/18 a gallwn ddangos fod hyn wedi cyfrannu at gyrraedd ein Hamcanion Llesiant a lles dinasyddion Bro Morgannwg. Fodd bynnag, yr ydym yn cydnabod mai blaenoriaethau strategol tymor-hir yw ein Hamcanion Llesiant i'r Cyngor

a bod y llwyddiant a gafwyd hyd yma yn gychwyn yr hyn fydd yn rhaglen faith o fentrau gyda'r nod o weithio tuag at adeiladu cymunedau cryf gyda dyfodol disglair, gweledigaeth tymor hir y Cyngor. Mae'r gwaith hwn wedi rhoi sicrwydd ein bod yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau iawn tuag at 2019/20 yn unol â gofynion deddfwriaethol.

- **Blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol**

Gofynnodd ein Harolwg Barn Cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng Rhagfyr 2018 ac Ionawr 2019 i sampl cynrychioliadol o drigolion Bro Morgannwg (1005 o drigolion 16 oed a hŷn) a ddylai Amcanion Llesiant presennol y Cyngor barhau yn Amcanion at y dyfodol. Er bod gwaith dadansoddi manwl yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar ddata'r ymgynghoriad, mae canfyddiadau cynnar yn dangos bod cefnogaeth gref gan y trigolion i flaenoriaethau presennol Amcanion Llesiant a Chynllun Corfforaethol y Cyngor.

Yn gyffredinol, yr oedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cytuno ag Amcanion Llesiant y Cyngor a'u bod yn meddwl bod y rhain yn amcanion gwerth chwil i'r Cyngor weithio tuag atynt. Y mae cadarnhau'r amcanion hyn yn adlewyrchu'r gwaith ymgysylltu cynhwysfawr blaenorol oedd yn sail i ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol a'n Hamcanion Llesiant, gyda barn y trigolion lleol, grwpiau cymunedol, partneriaid strategol a rhanddeiliaid allweddol eraill yn sail i'r rhain. I grynhoi:

- Dywedodd 97% y dylai Amcan Llesiant 1, 'Lleihau tlodi ac allgau cymdeithasol', barhau yn un o amcanion y Cyngor.
- Dywedodd 99% y dylai Amcan Llesiant 2, 'Darparu cartrefi parchus a chymunedau diogel', barhau yn un o amcanion y Cyngor.
- Dywedodd 98% y dylai said Amcan Llesiant 3, 'Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth', barhau yn un o amcanion y Cyngor.
- Dywedodd 97% y dylai said Amcan Llesiant 4, 'Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a gwarchod ein hamgylchedd', barhau yn un o amcanion y Cyngor.
- Dywedodd 98% y dylai said Amcan Llesiant 5, 'Codi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol', barhau yn un o amcanion y Cyngor.
- Dywedodd 88% y dylai said Amcan Llesiant 6, 'Rhoi Gwerth ar Ddiwylliant ac Amrywiaeth', barhau yn un o amcanion y Cyngor.
- Dywedodd 94% y dylai said Amcan Llesiant 7, 'Annog a hyrwyddo dulliau bywiog ac iach o fyw', barhau yn un o amcanion y Cyngor.
- Dywedodd 99% y dylai said Amcan Llesiant 8, 'Diogelu'r sawl sy'n fregus a hyrwyddo byw yn annibynnol', barhau yn un o amcanion y Cyngor.

Wedi adolygu 8 Amcan Llesiant y Cyngor, gofynnwyd i'r trigolion hefyd a oedd unrhyw beth arall y dylem ganolbwyntio arno dros y pum mlynedd nesaf. Atebodd y rhan fwyaf (74%) na i'r cwestiwn hwn. Meysydd canolbwyntio allweddol a awgrymwyd gan yr ymatebwyr eraill (26%) yr oedd seilwaith trafnidiaeth, ffyrdd a phalmentydd a pharcio (i drigolion a chanol trefi). Mae'r meysydd canolbwyntio hyn yn cael eu trin yn y blaenoriaethau am Ddeiliant Llesiant 2. Mae'r gwaith hwn wedi rhoi sicrwydd pellach ein bod yn canoli ar y blaenoriaethau iawn at 2019/20 a bydd yn ei dro yn sail i ddatblygiad ein Cynllun Corfforaethol newydd am 2020-2025.

- **Materion/trafodaethau a ddaeth i'r amlwg trwy Insight/BRhC**

Yn ddiweddar (24 Ionawr 2019), cynhaliwyd gweithdy gydag aelodau Bwrdd Insight, gan nodi heriau a blaenoriaethau allweddol i'r cyngor am y 5 mlynedd nesaf. Dangosodd canfyddiadau o'r gweithdy hwn fod ein blaenoriaethau yn dal yn berthnasol, er y bydd angen i ganolbwynt gweithgareddau at y dyfodol adlewyrchu yn

well y dirwedd polisi, ariannol a deddfwriaethol newidiol yr ydym yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd. Defnyddir y canfyddiadau hyn fel sail o wybodaeth i ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd am 2020-2025.

- Cynnal Gweithdai y 'Sgwrs Fawr':

Yn ystod Chwefror a Mawrth 2019, gwahoddodd y Cyngor ei gweithlu cyfan ynghyd mewn cyfres o weithdai i drafod yr heriau sy'n wynebu'r Cyngor dros y blynyddoedd i ddod, a'r angen i ddod o hyd i ffyrdd newydd o weithio i ymdrin â'r rhain. Mae canfyddiadau a ddeilliodd o weithdai'r 'Sgwrs Fawr' yn dangos, yn gyffredinol, y gellir asio ein heriau a'n blaenoriaethau fel Cyngor gyda'n Hamcanion Llesiant presennol, sydd yn ein sicrhau ein bod yn dal yn berthnasol. Fodd bynnag, yr ydym yn cydnabod yr angen i adolygu canolbwynt ein gweithgareddau at y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu yn briodol y dirwedd polisi, ariannol a deddfwriaethol newidiol yr ydym yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd. Defnyddir canfyddiadau'r gwaith hwn fel sail o wybodaeth i ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol newydd am 2020-2025.

- Arolwg y Farn Gyhoeddus

Mae Arolwg y Farn Gyhoeddus yn ddiweddar (2018/19) yn dangos fod boddhad cyffredinol â gwasanaethau'r Cyngor yn dal yn gadarnhaol ar tua 88%, er bod hyn yn is na chanlyniadau'r arolwg blaenorol o 92% (2016/17). Yr oedd dros 97% o drigolion naill ai yn fodlon iawn neu yn fodlon gyda Bro Morgannwg fel lle i fyw, sydd yn adlewyrchu canlyniad 2016/17. Mae'r canlyniadau hyn yn gadarnhaol iawn o edrych arnynt yng nghyd-destun yr amgylchedd heriol eithriadol yr ydym yn gweithio ynddo ar hyn o bryd. Maent yn dangos hefyd na chafodd y newidiadau i wasanaethau a wnaed hyd yma oherwydd lefel yr arbedion a'r mesurau effeithlonrwydd y bu'n rhaid eu gwneud wedi cael effaith sylweddol andwyol ar foddhad y trigolion gyda gwasanaethau yn gyffredinol.

- Ymgynghori ar y Gyllideb

Yn yr arolwg diweddar am y gyllideb, gofynnwyd i drigolion flaenoriaethu rhestr o ddulliau o ymdrin â diffyg cyllidebol y Cyngor o ryw £14 miliwn yn 2019/20, (1 yw'r dewis gorau a 5 y lleiaf). Cyflwynir y canlyniadau fel sgôr cymedrig: po agosaf y mae'r sgôr cymedrig at 1, hwnnw oedd y dewis gorau gan y trigolion. Codi treth y cyngor at y cyfartaledd Cymreig oedd y dewis a ffafriwyd fwyaf (2.13), ac yna codi am wasanaethau sydd am ddim ar hyn o bryd (2.45) a datblygu gwasanaethau newydd fyddai'n cynhyrchu incwm (2.73). Y dewisiadau lleiaf poblogaidd oedd codi'r tâl am wasanaethau y mae pobl yn talu amdanynt eisoes (3.06) a darparu llai o wasanaethau (4.62). Ar y llaw arall, pan ofynnwyd y cwestiwn hwn yn 2016/17, y dewis mwyaf poblogaidd gan y trigolion oedd datblygu gwasanaethau newydd fyddai'n cynhyrchu incwm (1.3), codi'r tâl am wasanaethau y mae pobl yn talu amdanynt (3) a chodi tâl am wasanaethau sydd am ddim ar hyn o bryd (3). Codi treth y cyngor at y cyfartaledd Cymreig (3.2) a darparu llai o wasanaethau (4.3) oedd y dewisiadau lleiaf poblogaidd.

Mae dealltwriaeth y cyhoedd o'r cyd-destun ariannol y mae'r Cyngor yn gweithio ynddo yn dal yn faes lle dylem wella. Pan holwyd hwy ynghylch manylion am faint y toriadau cyllidebol (£14 miliwn o arbedion yn 2019/20), dim ond 14% oedd yn llawn ymwybodol o faint yr arbedion oedd eu hangen, o gymharu â 13% yn yr arolwg blaenorol (2016/17). Dim ond ychydig dan hanner (43%) oedd yn ymwybodol o'r angen i wneud arbedion sylweddol, ond nid faint o arbedion o gymharu â 39% yn yr arolwg diwethaf. Yr oedd nifer y trigolion a ddywedodd nad oeddent yn gwybod fod y Cyngor yn wynebu'r mater hwn wedi gwella o 43% i 48% yn 2016/17. Er bod hyn yn gadarnhaol, erys hwn yn faes i ganoli arno yn y dyfodol.

Yn yr arolygon presennol a blaenorol, nid yw darparu llai o wasanaethau yn ddewis gan y trigolion. Hefyd, y mae cyflwyno tâl am wasanaethau yn ddewis ar draws y ddau arolwg. Adlewyrchir hyn yn strategaeth gyfredol y Cyngor o amddiffyn y gwasanaethau cyhoeddus y rhoddir gwerth mawr arnynt, sydd wedi gweld defnyddio amrywiaeth o ddulliau i drawsnewid y modd yr ydym yn cyflwyno ein gwasanaethau er mwyn sicrhau arbedion ac effeithlonrwydd a chynaliadwyedd yn y tymor hir. Mae strategaeth ail-lunio y Cyngor yn sail i'n fframwaith cynllunio integredig ac yn ein cynnal wrth weithio tuag at gyrraedd ein Hamcanion Llesiant fel y'u hamlinellwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2016-20. Mae'r canfyddiadau (gan gynnwys sylwadau ysgrifenedig gan ymatebwyr ynghylch agweddau at gyflwyno gwasanaethau) yn dangos fod trigolion, ar y cyfan, yn cefnogi'r agwedd mae'r Cyngor yn cymryd i ateb yr her ariannol a blaenoriaethau'r Amcanion Llesiant.

- Beth ddywedodd ein rheoleiddwyr amdanom.

Mae ein Hadroddiad Gwelliant Blyneddol (AGB) sy'n dod â'r canfyddiadau allweddol o'n holl waith archwilio a wnaed yn y Cyngor yn ystod 2017-18 (yr adroddwyd amdano ym Medi 2018) gan ein harchwilywyr allanol yn dal yn gadarnhaol. Daeth adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) i'r casgliad fod y Cyngor ar y cyfan yn cwrdd â'i ofynion statudol yng nghyswllt adrodd ariannol; yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ynghylch adrodd ariannol a defnyddio adnoddau; a bod ganddo drefniadau priodol ar gael i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei defnydd o adnoddau. Gwnaed nifer o gynigion am wella gan ganolbwyntio yn benodol ar gryfhau trefniadau craffu yn y Cyngor i'n galluogi i ymateb i heriau'r dyfodol a chael mwy o effaith, ac y mae'r rhain yn cael eu dwyn ymlaen fel blaenoriaeth.

Trwy ddefnyddio'r agwedd hon ar y cyd yr ydym wedi llwyddo i roi prawf ar berthnasedd Amcanion Llesiant y Cyngor a'u dilysu, a nodi a ydynt yn ein galluogi i wneud y mwyaf o'n cyfleoedd i gyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol.

Yn gyffredinol, mae'r broses herio hon wedi tynnu sylw at y ffaith fod ein Hamcanion Llesiant yn parhau yn berthnasol am 2019/20 ac y dylem barhau i gyflwyno'r blaenoriaethau allweddol am flwyddyn olaf y Cynllun Corfforaethol. Bydd gosod yr amcanion hyn hefyd yn sicrhau y byddwn yn cynnal ein momentwm wrth weithio tuag at gyrraedd ein Deilliannau Llesiant a bydd yn dystiolaeth o'n cyfraniad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

O ganlyniad i'r adolygiad hwn, ni wnaed unrhyw welliannau i Amcanion Llesiant y Cyngor am 2019/20. Fodd bynnag, bydd canolbwynt ein gweithgareddau cynlluniedig am y flwyddyn i ddod yn adlewyrchu ac yn ymateb i'r dirwedd polisi, ariannol a deddfwriaethol newidiol yr ydym yn gweithredu ynddo ar hyn o bryd. Gallwn gadarnhau mai wyth Amcan Gwelliant Llesiant y Cyngor am 2019/20 yw:

Canlyniad Llesiant	Amcan
	Amcan 1: Lleihau tloedi a gwaharddiad cymdeithasol.
	Amcan 2: Darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel.
	Amcan 3: Hyrwyddo gwaith adfer, twf economaidd a chyflogaeth.

BRO LEWYRCHUS SYN GYFRIFOL
AM YR
AMGYLCHEDD



BRO UCHELGEISIOL
A
DIWYLLIANNOL FYWIOG



BRO HEINI
AC
IACH



Amcan 4: Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu'n hamgylchedd.

Amcan 5: Codi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol.

Amcan 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth.

Amcan 7: Annog a hyrwyddo ffordd o fyw heini ac iach.

Amcan 8: Diogelu pobl fregus a hyrwyddo byw yn annibynnol.

Atodiad B sydd yn rhoi trosolwg o'r modd mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol.

Atodiad C sydd yn dangos y cysylltiad rhwng yr Amcanion Llesiant a osodwyd gennym am 2019/20 ac Amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Disgrifir yr wyth Amcan Llesiant yn fanylach ar dudalennau 11-48. Ar gyfer pob amcan, rydym wedi amlinellu pam ei fod yn bwysig, beth yw'r heriau o ran cyflwyno a pha gamau yr ydym am eu cymryd. Yn y ddogfen hon (**Atodiad D**), rydym hefyd wedi gosod cyfres o fesuriadau perfformiad allweddol yn erbyn ein Deilliannau Llesiant a'n Hamcanion Llesiant. Mae'r rhain yn adlewyrchu ehangder y gwasanaethau a ddarperir ar draws y Cyngor i gyrraedd ein Deilliannau Llesiant a chyda'i gilydd, maent yn dangos sut y byddwn yn ystyried y cynnydd a wnaed i gyflwyno'r deilliannau hyn.

Cyhoeddi ein Hamcanion (Gwella) Llesiant for 2019/20

Cyhoeddir ein Hamcanion Llesiant am 2019/20 ar wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk mor fuan ag sy'n ymarferol wedi 31 Mawrth 2019 yn unol â gofynion statudol. Gall aelodau'r cyhoedd hefyd gyrchu'r wybodaeth hon yn swyddfeydd y Cyngor ac mewn llyfrgelloedd a gallant wneud sylwadau am ein Hamcanion Gwella trwy e-bostio at: improvements@valeofglamorgan.gov.uk >

Bydd ein Cynlluniau Gwasanaeth yn rhoi mwy o fanylion am y camau a'r mesurau perthnasol, yr adnoddau, amserlenni ac atebolrwydd o ran cyflwyno ein Hamcanion Llesiant a byddant ar gael ar ein gwefan o Ebrill 2019 ymlaen.

Adolygu ac adrodd am ein cynnydd

Mae adolygu a gosod amcanion yn ofyniad cyfreithiol dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

O ran olrhain ein cynnydd yn erbyn yr olrhain ein cynnydd yn erbyn yr Amcanion Llesiant yn flynyddol, bydd y camau a'r mesuriadau perfformiad a amlinellir yn y ddogfen hon (**Atodiad A ac Atodiad D**) yn cael eu monitro ac yn cael adroddiad chwarterol yn unol â'n trefniadau Fframwaith Rheoli Perfformiad ar gyfer monitro Cynllun Corfforaethol 2016-20.

Bydd cynnydd yng nghyswllt yr Amcanion Llesiant hyn yn destun craffu chwarterol gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau Craffu, gan ddefnyddio adroddiadau perfformiad. Cyhoeddir ein hadroddiadau perfformiad chwarterol ym misoedd Medi (chwarter 1); Rhagfyr (chwarter 2); Mawrth (chwarter 3); a Medi (Adroddiad Diwedd Blwyddyn / Blynyddol) a gellir eu gweld ar wefan y Cyngor.

Yn ychwanegol at gyhoeddi ein Hamcanion Llesiant ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, byddwn hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd Medi. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn adolygu ein perfformiad dros y flwyddyn a aeth heibio. Mae'n mynd i fanylion ynghylch a ydym wedi cyrraedd y deilliannau arfaethedig cysylltiedig â phob Amcan Llesiant er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'n cyfleoedd i gyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol a gwella llesiant ein dinasyddion yn y Fro ar yr un pryd. Byddwn yn adrodd am ein perfformiad yn erbyn yr Amcanion Llesiant hyn (2019-20) ym Medi 2020.

Sut i ddod yn rhan

Mae nifer o fecanweithiau ar gael i drigolion ddylanwadu ar wneud penderfyniadau yn y Cyngor. Gallwn ddod yn rhan trwy ymuno â Barn y Fro, ein panel dinasyddion a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau a gynhelir gan y Cyngor neu ar ei ran, a'i bartneriaid, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Y cyfan mae'n rhaid gwneud yw llenwi'r [ffurflen ar-lein](#) fer.

Mae ein Pwyllgorau Craffu yn agored i'r cyhoedd ac yn rhoi cyfle i ddod yn rhan o weithgareddau'r Cyngor. Gallwch ofyn am i faes gwasanaeth neu fater gael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu trwy lenwi ffurflen [Ystyried i Adolygu](#). Gallwch hefyd gofrestru i siarad mewn Pwyllgorau Craffu trwy ddilyn y wybodaeth ar [wefan y Cyngor](#).

Er mwyn bod yn gynaliadwy a lleihau costau argraffu, bydd copi caled o'r cynllun ar gael ym mhrif dderbynfeydd y Cyngor ac mewn llyfrgelloedd.


Os oes gennych unrhyw sylwadau wedi darllen y cynllun hwn, cofiwch roi gwybod i ni trwy gysylltu â ni fel a ganlyn:

Llythrau at: Perfformiad a Datblygu, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig,
Heol Holton, Y Barri, CF63 4RU
E-bost: improvements@valeofglamorgan.gov.uk
Ffôn: 01446 700 101



Cynlyniad Llesiant 1: Bro Ddiogel a Chynhwysol

Amcan 1: Lleithau tlodi a gwaharddiad cymdeithasol



Cyfarwyddwr Noddi Amcan Llesiant

Miles Punter

Pam bod yr Amcan Llesiant hwn yn bwysig?

- Yr ydym yn cydnabod fod ardaloedd o **amddifadedd** yn bodoli ar draws Bro Morgannwg, yn enwedig de-ddwyrain y sir, lle gall ansawdd bywyd a chyfluoedd amrywio'n sylweddol. Yr ydym yn **cydweithio** gyda'n partneriaid ac yn **dwyn i mewn** gymunedau lleol er mwyn sicrhau fod anghenion gwahanol gymunedau yn cael eu deall **yr un fath** a'u cwrdd fel y gall yr holl drigolion edrych ymlaen at **ddyfodol disglaïr**.
- Mae **mynd i'r afael â thlodi** yn rhan annatod o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ac felly yn flaenoriaeth i'r Cyngor yn ogystal â bod yn brif ganolbwynt i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Dywed ymchwil wrthym fod ardaloedd mwyaf difreintiedig Bro Morgannwg yn nwyrain y Barri, a bod pocedi o amddifadedd hefyd mewn ardaloedd o Benarth, Sain Tathan a'r Fro wledig. Rhestrwyd Heol Holton a Castleland yn ardal y Barri yn 29^{ain} yn y rhestr o'r **ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru** (MAAC 2014 Maes Diogelwch Cymunedol). Yr ydym yn cydnabod nad yw pawb sy'n byw mewn ardal ddifreintiedig yn ddifreintiedig – ac nad yw'r holl bobl ddifreintiedig yn byw mewn ardaloedd difreintiedig.
- Nododd Asesiad Llesiant 2017 hefyd sawl ardal yn y Fro sydd ag incwm isel ar aelwydydd (Gibbonsdown, Dyfan, Buttrills, Castleland and Court) ac yr ydym yn cydnabod fod yr ardaloedd hyn yn dueddol o fod â chyfraddau cyflogaeth, cyrhaeddiad addysgol a chyfraddau disgwyliad einioes is. Yr ydym yn cydnabod yr angen i gymryd agwedd fwy holistig at wella lles yn ein cymunedau mwy difreintiedig trwy fynd ati i weithio gyda'n partneriaid a **dwyn y cymunedau hynny i mewn** i adnabod eu hasedau allweddol ac adeiladu arnynt i greu atebion arloesol a **thymor hir** i leihau tlodi ac amddifadedd.
- Mae unigrwydd a bod yn ynysig yn bynciau trawsffiniol sydd yn cael effaith ddifrifol am iechedd a llesiant pobl yng Nghymru ac y maent yn sylfaen i **allgau cymdeithasol**. Dywedodd pobl sy'n byw yn ardaloedd mwy trefol y Fro fod ganddynt rwydweithiau da. Fodd bynnag, mae dinasyddion y Fro Orllewinol fwy gwledig mewn mwy o berygl o fod yn ynysig a theimlo'n unig. Yr ydym yn cydnabod fod angen mwy o waith i **atal** hyn trwy **gydweithio**

Pam bod yr Amcan Llesiant hwn yn bwysig?

gyda'n partneriaid i **integreiddio** ein hagwedd at ymwneud cymunedol i'w gwneud yn hawdd i bobl gymryd rhan mewn bywyd cymunedol a chael clywed eu lleisiau.

- Nid yw cymunedau bellach yn bodoli yn ddaearyddol yn unig ond yn **ddigidol** ac yr ydym yn ystyried ffyrdd newydd o gyrraedd dinasyddion er mwyn sicrhau ein bod yn mynd ati i **ymwneud â phob sector ein cymdeithas** yn ddigidol.
- Bydd canoli ar yr Amcan Llesiant hwn yn helpu i leihau anghydraddoldeb rhwng ein cymunedau a chyfrannu at **gymunedau iachach, mwy cyfartal, ffyniannus a chydlynus** lle mae dinasyddion oll yn mwynhau disgwyliad einioes iach a chyfleoedd mewn bywyd waeth lle maent yn byw.

Beth yw ein heriau i gyflwyno'r Amcan Llesiant?


- Mae cyflwyno **Credyd Cynhwysol (CC)** yn dal yn her a bydd y Gwasanaethau Tai yn parhau i helpu tenantiaid i reoli arian trwy roi Cyngor Ariannol a chefnogaeth gyson trwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Bydd hyn yn help i leihau ôl-ddyledion rhent a chaledi ariannol er mwyn lliniaru'r effaith ar y Cynllun Busnes Tai. (IS002)
- Bydd yr oedi cyn cyflwyno Credyd Cynhwysol ym Mro Morgannwg gan yr **Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh)** yn cael effaith ar y Cyngor wrth i ni barhau i gefnogi'r sawl sydd ar Lwfans Ceiswyr Swyddi (LCS) nes byddant yn trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol. (IS003)
- Defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol a chydweithio ar draws adrannau'r Cyngor a ffiniau sefydliadol i leihau effaith cymdeithasol **diwygiadau lles** ar drigolion y Fro. (IS003)
- Erys ansicrwydd ynghylch dyfodol y **Gronfa Ddatblygu Cymunedau Gwledig** a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Er bod yr holl gyllid a neilltuwyd yn y Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru wedi ei warantu gan Lywodraeth y DU, sy'n cynnwys £2.2 miliwn ar gyfer y rhaglen LEADER a weithredir gan Gyngor y Fro, nid oes neb yn glir ynghylch yr arian ar ddaw yn y dyfodol i gymryd lle cyllid ar gyfer datblygu economaidd na chyllid gwledig, a bydd polisi San Steffan yn dylanwadu'n drwm ar hyn. Gall amgylchiadau BREXIT newid wedi i'r cytundeb ar BREXIT fynd gerbron y Senedd ym Mawrth 2019. (IS004)
- Bydd rheoli nifer o brosiectau sy'n effeithio ar blant, pobl ifanc a'r di-waith dan y grant cyllido unigol hyblyg o Ebrill 2019 ymlaen (Cymunedau am Waith a chyllid Gwaddol) yn her i ni oherwydd cymhlethdod dod â thimau o dair cyfarwyddiaeth wahanol i un ffrwd gyllido a nodi blaenoriaethau ar draws ystod eang o wasanaethau mewn un grant. (IS005)
- Addasu'r gwasanaeth i adlewyrchu colli **Cymunedau am Waith a Mwy/Cyllid Gwaddol** i gefnogi cyflogadwyedd yng nghyd-destun y Grant Plant a Chymunedau 'Cyllid Hyblyg' newydd fydd yn galw am fwy o integreiddio gyda gwasanaethau teuluoedd a phlant eraill. (IS005).
- Sicrhau fod Bro Morgannwg yn cael ei siâr o gyllid rhanbarthol ar gyfer adfywio (gan gynnwys y **Rhaglen Fuddsoddi Rhanbarthol wedi'i Thargedu**) yng nghyd-destun llai o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ac effaith BREXIT (IS005).
- Y gallu a'r adnoddau i gwrdd â'r galw cynyddol am **wasanaethau cefnogi plant a theuluoedd** er mwyn sicrhau y gellir cwrdd ag anghenion ac ar yr un pryd leihau unrhyw orgyffwrdd/dyblygu gwasanaethau sy'n cael eu darparu eisoes. (AH4 & IS006)
- Effaith pwysau tymor hir cynyddol ar **adnoddau gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg** i gefnogi anghenion pobl hŷn, pobl anabl a phobl ifanc. (IS006)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?

- Parhau i fwrw ymlaen â'r gwaith gyda'n partneriaid trwy grŵp 'Cael y Fro Ar-lein' i wella mynediad a sgiliau digidol i grwpiau sydd fwyaf tebyg o brofi allgau digidol. (IS001)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?

- Parhau i gyflwyno e-ffurflenni integredig i'r CRM i wella cyfleoedd i gwsmeriaid gael mynediad at ein gwasanaethau yn ddigidol. (IS001)
- Parhau i hyrwyddo'r defnydd o sianeli digidol mwy cost-efeithiol (e.e. trafodion dros y we a gwe-sgwrsio) i gefnogi cael cwsmeriaid i symud o'r sianeli traddodiadol o gysylltu â'r Cyngor (e.e. wyneb yn wyneb a thros y ffôn). (IS001)
- Parhau i roi mynediad at gyfryngau cymdeithasol a gwneud defnydd ohonynt i gysylltu â'n dinasyddion a'u dwyn i mewn fel bod modd cael adborth pellach a dysgu ganddynt. (IS001)
- Ymchwilio i botensial cynllun bancio amser yn y Fro/rhanbarth. (IS002)
- Datblygu agwedd gyfun at fynd i'r afael a thlodi tanwydd gan gydnabod arbenigedd a chyfraniad Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gyrraedd y nod hwn. (IS002)
- Datblygu prosiect adfywio seiliedig ar stad addas mewn ymateb i'r Cynlluniau Gweithredu Cymdogaeth a gwblhawyd. (IS002)
- Parhau i gefnogi cyflwyno Credyd Cynhwysol ym Mro Morgannwg yn unol ag amserlenni'r Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh). (IS003)
- Cyfeirio ymgeiswyr ymlaen i'w galluogi i gael cefnogaeth ar y gwasanaeth digidol newydd ar gyfer ceisiadau am Gredyd Cynhwysol. (IS003)
- Parhau i weithio gyda chydweithwyr ar draws y Cyngor i godi ymwybyddiaeth o newidiadau diwygio lles, ynghyd â mentrau cynghori am arian a chyflogaeth er mwyn cael yr incwm mwyaf o renti a lleihau ôl-ddyledion rhent. (IS003)
- Monitro effaith gweithredu'r symud dan reolaeth i Gredyd Cynhwysol trwy weithgorau amlasiantaethol wedi eu ffurfioli a chyfoesiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel. (IS003)
- Adolygu gallu'r Tîm Cynghori ar Arian a'r gwasanaeth presennol cynghori ar arian er mwyn sicrhau y darperir cymorth mewn pryd i'r tenantiaid hynny sy'n hawlio Credyd Cynhwysol. (IS03)
- Cefnogi cymunedau i gyrchu adnoddau a datblygu eu gallu i wella a rhedeg asedau cymunedol. (IS004)
- Cael rhaglen yn lle'r un Llefydd Bywiog a Hyfyw: Buddsoddiad Adfywio wedi'i dargedu. (IS005)
- Adolygu effaith y canllaw sy'n deillio o'r trefniadau Cyllido Hyblyg newydd. (IS006)
- Gweithredu'r trefniadau grant newydd dan y Gronfa Plant a Chymunedau newydd. (IS006)




Yn ychwanegol at y camau uchod, nodwyd nifer o ddangosyddion i ddangos ein cynnydd yn erbyn yr Amcan Lles hwn. Mae'r dangosyddion a amlinellir yn **Atodiad D** yn adlewyrchu'r ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu ar draws y Cyngor i gyflawni'r Amcan Lles a gyda'i gilydd byddant yn ein galluogi i ddangos sut yr ydym yn cyflawni ein Hamcan Lles a chyfrannu at y Nodau Lles cenedlaethol.



Cynlyniad Llesiant 1: Bro Ddiogel a Chynhwysol

Amcan 2: Darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel



Cyfarwyddwr Noddi Amcan Llesiant

Miles Punter

Pam bod yr Amcan Llesiant hwn yn bwysig?

- Tai yw sylfaen cymunedau; mae'n gyrru'r galw am wasanaethau, siopau a chyfleusterau lleol a thrwy hynny gyfrannu at **gymunedau ffyniannus, iach a chydlynus**. Wrth ganolbwyntio ar yr amcan hwn yr ydym yn ymrwymo i ddarparu **cartrefi fforddiadwy ac addas** o safon a all fod yn gatalydd i aelwyd ffynnu.
- Datgelodd yr Asesiad Llesiant diweddaraf (2017) fod pris tŷ cyfartalog ym Mro Morgannwg yn un o'r uchaf yng Nghymru a bod nifer cynyddol o bobl ifanc yn methu fforddio prynu cartref yn y gymuned lle magwyd hwy a'u bod yn rhentu yn breifat yn lle hynny.
- Cadwodd y Cyngor ei stoc tai a bydd yn parhau i sicrhau y gall trigolion gyrchu **tai o safon uchel** mewn da bryd.
- Mae cyfradd yr aelwydydd y tybir sydd yn gymwys, yn anfwriadol **ddigartref** a chyda blaenoriaeth angen wedi cynyddu ym Mro Morgannwg dros y blynyddoedd diwethaf yn froes i'r duedd genedlaethol. Yr ydym yn cydnabod yr angen i **gydweithredu** gyda'n partneriaid a **dwyn cwsmeriaid i mewn i integreiddio** mwy ar ein gwasanaethau i atal digartrefedd yn awr ac yn y **tymor hir**.
- Amlygwyd diffyg troseddau fel un o'r pethau mwyaf cadarnhaol am fyw ym Mro Morgannwg. Fodd bynnag yr oedd pobl hŷn yn arbennig yn teimlo bod **ymddygiad gwrthgymdeithasol** yn broblem yn eu hardal.
- Yn Castleland yn ardal y Barri y gwelwyd y **cyfraddau uchaf o drosedd** yn y Fro ar draws nifer o ddangosyddion gan gynnwys cyfraddau troseddau treisgar, difrod troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddwn yn gweithio gyda'n **partneriaid** i sicrhau bod trigolion ac ymwelwyr yn **teimlo'n ddiogel** ac yn rhan o'r gymuned leol.

Beth yw ein heriau i gyflwyno'r Amcan Llesiant hwn?

- Pwysau cyllidebol ar gyfnod cynnal cyson **SATC** a'r bwriad i adnewyddu ceginau, bwyleri ac ystafelloedd ymolchi dros y blynyddoedd i ddod. (IS007)

Beth yw ein heriau i gyflwyno'r Amcan Llesiant hwn?


- Ansicrwydd am ddyfodol y **Lwfans Gwaith Trwsio Mawr** (grant a delir i bob awdurdod tai lleol sy'n dal i reoli eu tai cymdeithasol) a ystyrir gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r grant cyfalaf hon yn cael eu defnyddio i gynnal ein stoc tai gan ofalu bod cartrefi yn ddiogel, a hyn yn ei dro yn gwella iechyd a lles tenantiaid. (IS007)
- Mae rhwystrau i ddatblygu **tai newydd** yn y Fro: diffyg cyllid, tir ar gael a'i addasrwydd. Yr allwedd yw adeiladu dim ond digon od ai newydd i gwrdd yr angen lleol heb adeiladu dros safleoedd tir glas a chael effaith ar yr amgylchedd naturiol sydd yn gymaint o ased yn y Fro. (IS008)
- Ni wyddom beth fydd effaith **BREXIT** o ran llafur a chost deunyddiau yn cael effaith ar ein gwasanaethau adeiladu ac yn sgil hynny, cyflwyno prosiectau megis Rhaglen Gwellai Tai Cyngor a'r rhaglen o godi tai cyngor newydd. (IS007, IS008)
- Bydd parhau i gyflwyno blaenoriaethau ein **Cynllun Busnes Tai** gyda'r posibilrwydd y bydd ffrydiau referniw yn lleihau yn dal yn her i'r gwasanaeth dros y blynyddoedd nesaf. (IS008)
- Gallai'r effaith ar incwm o **ôl-ddyledion rhent** effeithio ar y Cynllun Busnes Tai a pheri cynnydd mewn digartrefedd, a rhoi pwysau ar lety dros dro. (IS008)
- Mwy o bwysau ar lety dros dro oherwydd bod mwy o bobl yn dod yn **ddigartref**. (IS009)
- Mae cynnal yr amser cyfartalog a gymerir i gyflwyno **Grant Cyfleusterau'r Anabl (GCA)** yng ngoleuni newidiadau i'r modd y mae gwybodaeth yn cael ei fesur (yn ôl gorchymyn Llywodraeth Cymru) wedi effeithio ar ein perfformiad dros y blynyddoedd diwethaf. Cyn hyn, yr oedd yr amser cyflwyno a gofnodwyd yn cychwyn adeg cyfeirio at y tîm GCA ac y mae hyn yn awr wedi ei newid, gyda'r amseroedd yn cael eu cofnodi o'r cyswllt cyntaf gyda'r Cyngor a all fod trwy'r Ganolfan Gyswllt (C1V). Mae gofyn asesu anghenion y cleientiaid ac y mae'r broses hon weithiau yn cymryd cryn amser cyn cyfeirio at y tîm GCA gan y gall gynnwys ymchwilio i atebion eraill megis pecynnau gofal cyn cyfeirio yn y pen draw at y tîm GCA. Cwmpodd ein perfformiad o 188 dirnod yn 2017/18 i 193 diwrnod yn chwarter 2 2018/19. Parheir i adolygu prosesau mewn ymgais i ostwng amseroedd cyflwyno cyfartalog, gan gynnwys cychwyn cynllun peilot am gyfnod triage newydd ar gychwyn y broses GCA, ac ymddengys bod hyn wedi bod o les. (IS009)
- Gallu i ymdrin â phwnc **tai gwag** ym Mro Morgannwg a'u hail-ddefnyddio a sicrhau'r adnoddau priodol ac angenrheidiol. (IS011)
- Cynnydd mewn **camdriniaeth a thrais yn y cartref** a nodwyd hefyd yn ein prosiect peilot diweddar ac y mae'n rhoi pwysau ychwanegol ar ein hadnoddau. (IS013)
- Erys cyflwyno gwasanaethau cynaliadwy dan bortffolio'r **Fro Ddiogelach** gyda chyllid grant tymor byr o flwyddyn i flwyddyn yn her, oherwydd bod cleientiaid yn profi problemau mwy cymhleth sydd yn galw am fwy o gefnogaeth. Mae cyllid ar gyfer gwasanaethau ar gyfradd wastad o flwyddyn i flwyddyn, ac nid yw hyn yn rhoi cyfle i gynllunio na datblygu gwasanaethau yn effeithiol oherwydd yr ymrwymiad cyllido tymor byr. (IS016)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?

- Cyflwyno'r rhaglen adnewyddu / amnewid cylch einioes i sicrhau y byddwn yn cydymffurfio â SATC o ran stoc yn ystod 2019/20. (IS007)
- Datblygu rhaglen beilot o dechnolegau adnewyddol i leihau ôl troed carbon yn stoc tai'r Cyngor. (IS007)
- Canolbwyntio ar reoli tai gwag a chael mwy o effeithlonrwydd trwy leihau'r amser a gymerir i ail-osod eiddo. (IS007)
- Datblygu Panel Craffu Tenantiaid. (IS007)
- Datblygu a nodi cyfleoedd i ddatblygu'r rhaglen Tai Cyngor. (IS008)
- Parhau i ddatblygu Strategaeth Rheoli Asedau/ Strategaeth Fuddsoddi i dai Cyngor. (IS008)
- Mabwysiadu Strategaeth Datblygu Tai. (IS008)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?

- Adolygu Polisi Rhent presennol y Cyngor yng ngoleuni polisi newydd Llywodraeth Cymru.(IS008)
- Parhau a'n gwaith gyda phartneriaid i roi llety a gwasanaethau cefnogi priodol i grwpiau bregus. (IS009)
- Cysylltu â Llywodraeth Cymru a'r gymuned deithwyr a nodwyd ar hyn o bryd i gael yr ateb tai mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion. (IS009)
- Gweithio gyda'n partneriaid yn rhanbarthol ac arwain at ddatblygu'r Strategaeth Tai gyda Gofal a Chefnogi Pobl Hŷn i hyrwyddo byw yn annibynnol. (IS009)
- Gweithredu argymhellion yr adroddiad Llety gyda Gofal a Gofal Parod i Bobl Hŷn. (IS009)
- Goruchwylio gweithredu a monitro cyflwyno canllawiau interim cefnogi pobl gan ddefnyddio'r grant cefnogi tai. (IS009)
- Adolygu dewisiadau i ddwyn Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol i mewn i addasiadau tai cyngor. (IS009)
- Parhau i gyflwyno gwasanaeth grant Cyfleusterau'r Anabl ar gyfer tai preifat. (IS009)
- Parhau i gefnogi deiliaid tai a landlordiaid i wellai tai preifat a pheri bod eiddo gwag ar gael gan gynnwys darparu benthyciadau. (IS010)
- Sicrhau o leiaf 30% o dai newydd fforddiadwy trwy ganiatâd cynllunio. (IS011)
- Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu nifer y tai cynaliadwy, fforddiadwy yn y Fro. (IS011)
- Gwella mynediad at wybodaeth diogelu ar wefan y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir trwy adolygu a gwella gwybodaeth ar dudalennau gwe. (IS012)
- Codi ymwybyddiaeth o sgamiau, troseddau ar stepen y drws a materion diogelu eraill trwy ddatblygu taflenni a chanllawiau a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol. (IS012)
- Llunio perthynas gyda ffederasiynau masnach megis Ffederasiwn Meistr Adeiladwyr i gwmpasu arferion masnach cyfredol ar draws y rhanbarth a bod yn sail i flaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer ymyriadau gan gynnwys gweithgareddau gwybodaeth, addysg a gorfodi. (IS012)
- Gwerthuso deilliannau allweddol y gwasanaeth peilot o gyfeirio ac asesu ynghylch camdriniaeth yn y cartref (CACD) a cheisio cyllid tymor hir.(IS013)
- Gweithredu Strategaeth ranbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol (TEMCCThRh) gyda Chaerdydd a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. (IS013)
- Parhau i gyflwyno'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, camdriniaeth yn y cartref a thrais rhywiol. (IS013)
- Datblygu cysylltiadau gyda'n trigolion bregus a grwpiau anodd eu cyrraedd yn unol â'n Cynllun Cydlyn Cymunedol. (IS013)
- Parhau i atal a thrin digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys gweithredu agweddau cyfiawnder adferol i bobl ifanc.(IS014)
- Ehangu cyflwyno agweddau cyfiawnder adferol trwy weithredu'r protocol Plismona Plant sy'n Derbyn Gofal, i wella ein hagwedd at fonitro a rhannu gwybodaeth am Blant sy'n Derbyn Gofal yn y System Cyfiawnder Ieuencid. (IS014)
- Gweithio gyda phartneriaid i wella'r prosiect rheoli achos ar gyfer gweithredu arferion gyda thrawma yn sail o wybodaeth iddynt. (IS014)
- Cyflwyno ac adolygu'r ardaloedd adfywio / adnewyddu newydd. (IS015)
- Datblygu a hyrwyddo Strategaeth Diogelwch Cymunedol newydd i Fro Morgannwg. (IS016)




Yn ychwanegol at y camau uchod, nodwyd nifer o ddangosyddion i ddangos ein cynnydd yn erbyn yr Amcan Lles hwn. Mae'r dangosyddion a amlinellir yn **Atodiad D** yn adlewyrchu'r ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu ar draws y Cyngor i gyflawni'r Amcan Lles a gyda'i gilydd byddant yn ein galluogi i ddangos sut yr ydym yn cyflawni ein Hamcan Lles a chyfrannu at y Nodau Lles cenedlaethol.



Cynlyniad Llesiant 2: Bro Lewyrchus sy'n Gyfrifol am yr Amgylchedd

Amcan 3: Hyrwyddo gwaith adfer, twf economaidd a chyflogaeth



Cyfarwyddwr Noddi Amcan Llesiant

Rob Thomas

Pam bod yr Amcan Llesiant hwn yn bwysig?

- Mae cysylltiadau clir rhwng **economi lleol ffyniannus** a llesiant ein trigolion. Bydd economi lleol, cryf yn helpu i ddenu pobl i fyw yn yr ardal, a hyn yn ei dro yn hybu'r economi ymhellach, ac yn sgil hyn daw mwy o **gyfloed am waith** i drigolion sydd wedyn a mwy o incwm i'w wario yn y farchnad.
- Yr ydym yn gweithio mewn **cydweithrediad gyda thrigolion a'n partneriaid** i gyflwyno rhaglen gynhwysfawr o **adfywio** ar draws y Fro gan gynnwys y Strategaeth Datblygu Lleol Gwledig, Glan Dŵr y Barri, cysylltiadau rhwng Hafan Penarth a chanol y dref a'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau Twristiaeth. Bydd y gweithgaredd hwn yn sicrhau **economi cryf a chynaliadwy** i'r genhedlaeth hon a **chenedlaethau'r dyfodol**.
- Mae **Canol Trefi Ffyniannus** yn rhan bwysig o hyrwyddo pob agwedd o lesiant yn y Fro sydd â nifer o ganol trefi – Y Bontfaen, Llanilltud Fawr, Penarth a dwy ardal yn y Barri. Mae ein Fframwaith Canol Trefi yn gosod allan amrywiaeth o gamau i sicrhau y daw canol ein trefi yn gyrchfannau mwy deniadol a **ffyniannus** y gall trigolion, gweithwyr ac ymwelwyr eu mwynhau.
- Tra bod gan y Fro ganran is na'r cyfartaledd o aelwydydd heb waith, mae mannau lle mae cyfraddau cyflogaeth a lefelau cyrhaeddiad isel. Yr ydym yn cydnabod nid yn unig fod yn rhaid i ni helpu trigolion i sicrhau gwaith ond hefyd i **gynnal cyflogaeth a sicrhau gwell dyfodol**.

Beth yw ein heriau i gyflwyno'r Amcan Llesiant?

- Tra bod cynnydd o ran **Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (Bargen Ddinesig)** yn gadarnhaol, rhaid i ni ofalu bod buddiannau Bro Morgannwg yn parhau i gael eu hyrwyddo yn y dyfodol. Mae'r angen i hyrwyddo'r Maes awyr a sain Tathan fel canolfannau twf economaidd a chreu swyddi yn arbennig o berthnasol, gwella mynediad strategol i'r Fro, cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a datblygu economaidd ehangach. (ER1)
- Bu oedi gyda mabwysiadu **Meistr-Gynllun Maes Awyr Caerdydd fel Canllaw Cynllunio Atodol (CCA)** oherwydd gwaith ychwanegol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â'r Cyngor a'r Maes Awyr i gael meistr-gynllun llawn i'r Maes Awyr a chael

Beth yw ein heriau i gyflwyno'r Amcan Llesiant?

cyfleoedd am y Parth Menter. Unwaith y cytunir ar y Meistr-Gynllun a'i gymryd trwy'r broses gynllunio ategol yn unol â hynny. (ER1)


- Mae'r **system gynllunio** yn parhau i fod yn destun newid deddfwriaethol (cydgyfnerthu'r Deddfau Cynllunio). Mae Cyngor Bro Morgannwg yn cydnabod rôl bwysig y gwasanaeth cynllunio o ran ail-danio'r economi a chymunedau er mwyn sicrhau bod twf economaidd ac adfywio yn arwain at dwf cynaliadwy yn yr economi lleol, ac amddiffyn a gwella nodweddion trefol a gwledig Bro Morgannwg, sydd yn y pen draw yn ei gwneud yn un o'r llefydd gorau i fyw yng Nghymru.(ER1)
- Fel awdurdod, yr ydym eto wedi ymrwymo i wneud arbedion a chydbwyso'r gyllideb ar waethaf yr anawsterau a'r ansicrwydd sy'n bodoli yn dilyn y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Yr ydym wedi ymateb yn gadarnhaol i alwadau ar y gwasanaeth a phwysau ar gostau trwy gymryd camau i ail-lunio ein gwasanaethau, gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gynhyrchu incwm a chydweithio'n well yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Fodd bynnag, er ein bod yn gosod cynlluniau realistig ar waith i sicrhau ein bod yn cyrraedd ein blaenoriaethau a'n harbedion, mae'n amlwg y bydd angen i ni gymryd camau lliniaru yn erbyn yr ansicrwydd parhaus am drefniadau cyllido allanol (a waethygir gan ymadawiad Prydain o'r UE) a pharhau i sicrhau **cyllid gan Lywodraeth Cymru** i ddatblygu a chyflwyno prosiectau adfywio allweddol sydd yn adlewyrchu anghenion a chyfleoedd lleol. (ER3)
- Un o'n heriau fydd helpu i ymdrin â'r materion sy'n wynebu canolfannau siopa yn y Fro a sut y byddwn yn helpu i leihau nifer yr unedau gwag i wella hyfywedd y lleoliad. At y dyfodol, byddwn yn cefnogi masnachwyr Heol Holton a'r Stryd Fawr i ymchwilio i ddatblygu **Ardal Gwella Busnes** ac os cynhelir pleidlais lwyddiannus, cefnogi gweithredu'r AGB (ER3)
- Sicrhau fod Bro Morgannwg yn sicrhau ei chyfran o gyllid rhanbarthol ar gyfer adfywio (gan gynnwys y **Rhaglen Fuddsoddi Rhanbarthol wedi'i Thargedu**) yng nghyd-destun llai o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru ac effaith BREXIT.(IS005/ER2/ER3)
- Anallu i gwrdd â gofynion Llywodraeth Cymru yng nghyswllt **Teithio Llesol**. Er enghraifft, bydd ar y Cyngor angen digon o arian i barhau i weithredu a hyrwyddo llwybrau cerdded a beicio. Hefyd, bydd angen i ni lwyddo i annog trigolion i gymryd rhan mewn Teithio Llesol. Mae ateb y gofynion hyn o fewn y cyllidebau sydd yn lleihau yn her o hyd. (ER5/12)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?

- Gweithio mewn partneriaeth gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i hyrwyddo Maes Awyr Caerdydd a'r Parth Menter a defnyddio'r Cynllun Datblygu Lleol fel fframwaith cynllunio ar gyfer defnydd cadarnhaol o dir. (ER01)
- Datblygu Canllawiau Cynllunio Ategol i Feistr-Gynllun y Maes Awyr. (ER01)
- Bwrw ymlaen â gwaith gyda'n partneriaid o ran seilwaith trafndiaeth, cefnogaeth i fusnes, adfywio, cynllunio a thai, sgiliau ac arloesedd fel rhan o'r Fargen Ddinesig (CCR). (ER01)
- Gweithio gyda'r Brifddinas-Ranbarth i hyrwyddo a hwyluso teithio mwy cynaliadwy yn y Fro ac ar draws y rhanbarth a, lle bo angen, dylanwadu ar ddarparwyr trafndiaeth a'u llobio am well dewisiadau cludiant cyhoeddus (Cynllun Llesiant).(ER01)
- Datblygu cyfleoedd am brosiectau adfywio / buddsoddi i wireddu cyfleoedd lleol am waith. (ER02)
- Ymchwilio i ddatblygu Adran Gwella Busnes, ac os cynhelir pleidlais lwyddiannus, cefnogi masnachwyr i weithredu'r AGB. (ER02)
- Sefydlu a gweithredu grantiau eiddo thematig rhanbarthol ar gyfer 2019/20 a pharhau i gyflwyno Porth y Barri a phrosiect yr Ardal Arloesedd. (ER02)
- Gweithio gyda Choleg Caerdydd a'r Fro i fwrw ymlaen â safle newydd i'r coleg. (ER02)
- Parhau i gyflwyno'r Strategaeth Datblygu Gwledig Lleol. (ER03)
- Parhau i gryfhau canol ein trefi gan gynnwys trwy'r Fframwaith Canol Trefi. (ER03)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?

- Bwrw ymlaen â phrosiectau adfywio ar hyd y Fro a chyflwyno strategaethau cysylltiedig. (ER03)
- Cwblhau Prosiect Adfywio Porth Canol Tref y Barri. (ER03)
- Cyflwyno'r prosiectau a osodir allan yn Strategaeth A106 Ucheldir Penarth. (ER03)
- Bwrw ymlaen gydag astudiaeth dichonoldeb i gael bysus dros forglawdd Bae Caerdydd, gan gynnwys ystyried ymhellach cyfleuster Parcio a Theithio Parc Cosmeston. (ER03)
- Cwblhau gwelliannau i fannau agored yn Dingle Road. (ER03)
- Cwblhau'r parc sglefrfyddio newydd ym Maes Hamdden Cogan. (ER03)
- Parhau i gyflwyno cynlluniau gwella trafndiaeth cysylltiedig â Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gan gynnwys seilwaith beicio a gwelliannau i arosfannau bysus o Weycock Cross i Faes Awyr Caerdydd. (ER04)
- Bwrw ymlaen â gofynion modelu ychwanegol i helpu gyda'r astudiaeth dichonoldeb am welliannau i fysis, beicio a cherdded yng Nghaerdydd a Heol y Barri, Dinas Powys. (ER04)
- Parhau i wella'r rhwydwaith priffyrdd Teithio Llesol. (ER05)
- Cynyddu nifer y digwyddiadau arloesol sydd yn cefnogi'r economi lleol ac annog digwyddiadau sy'n bod eisoes i fod yn hunangynhaliol. (ER06)
- Gweithredu'r Cynllun Rheoli Cychfannau. (ER06)
- Cyflwyno amrywiaeth o welliannau i Lwybr Arfordir Cymru yn y Fro. (ER06)
- Ymchwilio ymhellach i gyfleoedd am bartneriaeth fasnachol ar safleoedd y Cyngor i ddarparu gweithgareddau twristiaeth. (ER06)




Yn ychwanegol at y camau uchod, nodwyd nifer o ddangosyddion i ddangos ein cynnydd yn erbyn yr Amcan Lles hwn. Mae'r dangosyddion a amlinellir yn **Atodiad D** yn adlewyrchu'r ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu ar draws y Cyngor i gyflawni'r Amcan Lles a gyda'i gilydd byddant yn ein galluogi i ddangos sut yr ydym yn cyflawni ein Hamcan Lles a chyfrannu at y Nodau Lles cenedlaethol.



Cynlyniad Llesiant 2: Bro Lewyrchus sy'n Gyfrifol am yr Amgylchedd

Amcan 4: Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu'n hamgylchedd



Cyfarwyddwr Noddi Amcan Llesiant

Rob Thomas

Pam bod yr Amcan Llesiant hwn yn bwysig?

- Yr ydym yn cydnabod y gall **seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy** gyfrannu at yr effeithiau negyddol y gall ceir gael ar yr amgylchedd, lleihau tagfeydd, gwella iechyd a llesiant, gwella mynediad at gyflogaeth, iechyd ac addysg a lleihau'r risg o ddamweiniau ffordd.
- Rydym eisiau gwneud y mwyaf o werth/safle ein lleoliad yn Rhanbarth De Ddwyrain Cymru ac yr ydym yn **gweithio gyda'n partneriaid** i fanteisio i'r eithaf ar dwf economaidd, mewnffuddsoddi a chyflogaeth trwy ein Cynllun Datblygu Lleol.
- Bydd canoli ar yr amcan hwn yn cyfrannu at **ddatblygu cynaliadwy** ac yn caniatáu i ni gwrdd â'n cyfrifoldebau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sydd yn cydnabod yr hawl i gyrraedd lefel gynaliadwy o ddatblygu ac ar yr un pryd reoli ein hadnoddau naturiol yn gyfrifol, a'u hamddiffyn.
- Yr ydym yn **falch** fod gan Fro Morgannwg **natural amgylchedd naturiol cyfoethog ac unigryw** ac yr ydym yn parchu'r ffaith fod ein hamgylchedd naturiol yn denu llawer o ymwelwyr, gan gyfoethogi mwy ar economi'r ardal a hefyd roi amrywiaeth o fuddiannau llesiant i'n trigolion. Mae'n hanfodol felly ein bod yn rhoi gwerth ac yn parchu'r amgylchedd er mwyn sicrhau **llesiant ein cenedlaethau at y dyfodol**.
- Yr ydym yn deall pwysigrwydd lleihau gwastraff ac yn parhau i anelu at gyrraedd y **targedau ailgylchu cenedlaethol** a osodwyd gan Lywodraeth Cymru (64% yn ystod 2019/20 gan godi i 70% yn 2024/25).

Beth yw ein heriau i gyflwyno'r Amcan Llesiant?

- Mae pwysau llymder yn real ac y mae'n dod yn gynyddol anodd sicrhau **cyllid referniw a chyfalaf gan Lywodraeth Cymru** a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar y gwasanaethau y gallwn gynnig.
- Yr ydym wedi wynebu anawsterau wrth recriwtio a chadw gyrwyr gwirfoddol i redeg gwasanaeth **Trafnidiaeth Gymunedol Greenlinks** ac yr ydym yn parhau i wynebu heriau o ran sicrhau arian i ddyfodol y gwasanaeth. Mae angen i ni recriwtio mwy o wirfoddolwyr i allu rhedeg y gwasanaeth ar ei botensial llawn ac felly rhaid i ni ymwneud â mentrau i ddenu mwy o wirfoddolwyr. (ER9)

Beth yw ein heriau i gyflwyno'r Amcan Llesiant?

- Her o hyd yw cwblhau **Rhaglen 3-blynedd Ail-wynebu Ffyrdd** y Cyngor i gydymffurfio â'n dyletswydd i gynnal y priffyrdd i safon ddiogel a lleihau ceisiadau yswiriant, o gofio'r asedau sy'n dirywio, yr adnoddau cyfyngedig a diffyg buddsoddi mewn cynnal at y dyfodol. (ER9)
- Her allweddol at y dyfodol yw'r **twf cynyddol mewn traffig** ym Mro Morgannwg, gyda phwyslais arbennig ar Ddwyrain y Fro, sy'n arwain at fwy o lygredd, a hyn yn ei dro yn cael effaith negyddol ar gynhyrchedd economaidd. (ER9)
- Mae diffyg **darparwyr trafnidiaeth i deithwyr** ym Mro Morgannwg o hyd a gallai hyn arwain at gostau uwch a phwysau cost contract uwch pan fydd gwasanaethau yn cael eu hail-dendro. (ER9)
- Mae costau ynni cynyddol am gyflenwadau trydan heb eu mesur mewn perthynas â goleuadau stryd yn dal yn her allweddol o ystyried gostyngiadau mewn cyllidebau a'r angen i gyflwyno arbedion sylweddol fel rhan o'r Strategaeth Ail-lunio. Bu cynnodd o bron i 8% yng nghost uned ynni am oleuadau stryd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol; bydd hyn yn cael effaith ar yr arbedion a amcangyfrifir o **Strategaeth Lleihau Ynni Goleuadau Stryd** y Cyngor sydd â'r nod o drosi pob llusern i LED erbyn Mawrth 2020 i wneud arbedion hanfodol ar ynni ac allyriadau CO2. (ER15)
- Mae cyflwyno prosiectau cyfalaf, gan gynnwys y prosiect goleuo strydoedd ychwanegol i gymryd lle llusernau goleuo'r prif strydoedd gyda **LED** gan ddefnyddio benthyciad Salix Finance Ltd. yn dod yn gynyddol heriol gydag adnoddau technegol mewnol cyfyngedig. (ER15)
- Erys cwrdd â gofynion **Cynllun Rheoli Carbon** y Cyngor; er enghraifft, i ddibynnu llai ar gerbydau disel a chaffael cerbydau trydan newydd, bydd yn rhaid gofyn am fwy o arian o fewn cyllidebau sy'n crebachu. (ER15)
- Gallu i gwrdd â'n hymrwymiaadau lleihau carbon dan **gynllun Effeithlonrwydd Ynni Energy CRC** yng ngoleuni cyllidebau sy'n crebachu a chynnydd yng nghostau adnoddau ac ynni. (ER15)
- Bydd symud tuag at **leihau carbon yn ein stoc tai bresennol a thai a godwyd o'r newydd** yn gofyn am gryn dipyn o adnoddau. (ER15)
- Yr ydym yn parhau i anelu at gyrraedd **targedau ailgylchu cenedlaethol** (64% yn ystod 2019/20 yn codi i 70% yn 2024/25) ond gallu methu â chyrraedd y targedau hyn arwain at gosbau a dirwyon gan Lywodraeth Cymru. (ER16)
- Ymdrin ag effaith colli'r **grant amgylchedd unigol** yng nghyswllt gwaith bioamrywiaeth. (ER17)
- Fel awdurdod arfordirol yr ydym yn dueddol o weld llifogydd difrifol ar ardaloedd y glannau a'r afonydd, a hefyd lifogydd sydyn a all darfu'n enbyd ar yr Awdurdod a gosod pwysau ariannol arni yn ogystal ag ar drigolion a busnesau lleol. Mae gennym hefyd nifer o ddyletswyddau cyfreithiol yng nghyswllt **Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr** sydd yn gosod pwysau ar y gwasanaeth a'i adnoddau. (ER18)
- Mae pwysau cynyddol ar gyllidebau gwastraff a thrafnidiaeth o ganlyniad i ddatblygiadau yn y Fro yn parhau i gael effaith ar ein gallu i gyflwyno mwy o arbedion yn ein gwasanaethau.

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?


- Cynnal adolygiad monitro blynyddol o'r Cynllun Datblygu Lleol a defnyddio hyn fel Fframwaith Cynllunio. (ER07)
- Paratoi ac ymgynghori ar y Canllaw Cynllunio Atodol perthnasol. (ER07)
- Pennu ceisiadau statudol dan y Deddfau Cynllunio a Deddfau perthnasol eraill yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol (oni fydd ystyriaethau perthnasol yn nodi i'r gwrthwyneb). (ER07)
- Parhau gyda rhaglen o hyfforddi aelodau'r Pwyllgor Cynllunio. (ER07)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?

- Gweithio gyda Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a CLILC i sicrhau adolygiad boddhaol o gyfraith cynllunio. (ER07)
- Sicrhau cyfraniadau gan ddatblygwyr trwy adran 106 Deddf Cynllunio i ddarparu'r seilwaith angenrheidiol a gwella cyfleusterau cymunedol. (ER08)
- Parhau i gyflwyno'r cynllun 3 blynedd o ail-wynebu priffyrdd. (ER09)
- Cyflwyno unrhyw gynlluniau diogelwch trafnidiaeth y ffyrdd a gaiff gyllid yn 2019/20. (ER09)
- Cyflwyno rhaglen gynhwysfawr o addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd am ddiogelwch y ffyrdd i grwpiau bregus a nodwyd yn Fframwaith Diogelwch y Ffyrdd LIC. (ER09)
- Parhau i gynnal Gwasanaeth Cludiant Cymunedol Greenlinks. (ER09)
- Ceisio mwy o gyfleoedd i recriwtio gwirfoddolwyr i fentrau cludo. (ER09)
- Adolygu trefniadau gorfodi Parcio Sifil gyda Phen-y-bont yn unol â deilliannau o'r adolygiad Polisi Parcio. (ER09)
- Gweithredu'r Polisi Parcio diwygiedig. (ER09)
- Parhau â menter Llenwi Mawr am 2019/20. (ER09)
- Parhau i gyflwyno gwelliannau strwythurol i bontydd Murch Field a Llyfrgell Dinas Powys. (ER09)
- Parhau i gyflwyno gwelliannau i Five Mile Lane mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. (ER10)
- Parhau i hyrwyddo cynllun teithio rhad Llywodraeth Cymru. (ER11)
- Cynnal adolygiad o'r polisi trafnidiaeth ôl-16 i Ysgolion / Colegau. (ER11)
- Cynnal adolygiad o fysis cludiant ysgolion lle telir am docynnau. (ER11)
- Parhau i nodi cyllid ar gyfer gwella Llwybr 88 y Llwybr Beicio Cenedlaethol fel y'i nodwyd yn y mapiau rhwydweithiau integredig Teithio Llesol. (ER12)
- Gweithredu cynllun achubwyr bywyd Haf 2019/20 ar gyfer Ynys y Barri, Southerndown, Ogwr a Llanilltud Fawr. (ER13)
- Mabwysiadu a chyflwyno cynllun marchnata strategol Ynys y Barri. (ER14)
- Bwrw ymlaen ag aildddefnyddio safle Nell's Point yn Ynys y Barri er lles. (ER14)
- Gwaredu'r hen foc toiledau yn Nell's Point. (ER14)
- Cwblhau marchnata a gwaredu nifer o leiniau o dir yn Nell's Point. (ER14)
- Gweithredu trosi goleuadau heb fod yn LED i LED ar y prif ffyrdd. (ER15)
- Adolygu ein fflyd bresennol gyda golwg ar brynu cerbydau newydd (o'r gronfa Amnewid Cymdogaethau) yn unol â Safonau Amgylcheddol yr UE gan gynnwys y gallu i weithredu ar foddau tanwydd amgen. (ER15)
- Cyrraedd y targed ailgylchu cenedlaethol o 64% am 2019/20. (ER16)
- Parhau i ddefnyddio wardeniaid gwastraff (wedi cyfyngiadau gweddilliol) i sicrhau bod aelwydydd yn ailgylchu cymaint ag sydd modd ac yn cadw at y trefniadau newydd. (ER16)
- Datblygu/gweithredu Strategaeth Lleihau Gwastraff. (ER16)
- Ailfodelu ein seilwaith rheoli gwastraff. (ER16)
- Cyflwyno glasbrint y casgliadau fesul cyfnod. (ER16)
- Datblygu Cynllun Rheoli Gwastraff 7 mlynedd (2018-25). (ER16)
- Bidio am Grant Amgylchedd blynyddol Llywodraeth Cymru. (ER16)
- Cyflwyno Strategaeth Cyfleusterau Cyhoeddus i Fro Morgannwg. (ER16)
- Bwrw ymlaen a datblygu gorsaf drosglwyddo gwastraff a rhesymoli'r depos gweithredol presennol (yn amodol ar gyllid CCP LIC). (ER16)
- Ymchwilio i ddewisiadau am Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartrefi i Orllewin y Fro unwaith i'r brydles bresennol ar y safle ddod i ben (Rhagfyr 2019). (ER16)
- Caffael cyfleusterau ailgylchu sych yn ôl yr angen yn dilyn terfynu adroddiad WRAP. (ER16)
- Ystyried dewisiadau i ddod â safleoedd Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartrefi yn ôl yn fewnol yn ystod 2019 neu 2020. (ER16)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?

- Cyflwyno ymgyrch ledled y Fro yn erbyn gollwng sbwriel. (ER16)
- Cyflwyno Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC) newydd dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014 (DYGTPH 2014) i orfodi troseddau yn ymwneud â chŵn h.y., baw cŵn. (ER16)
- Sefydlu tîm gorfodi mewnol newydd i helpu i gynnal safonau uchel o lendid amgylcheddol. (ER16)
- Gwella ac amddiffyn bioamrywiaeth a chynefinoedd lleol trwy Ddeddf Cymunedau a'r system cynllunio defnydd tir. (ER17)
- Cydgordio cyflwyno ac adrodd ar gamau corfforaethol yn erbyn y Blaengynllun Bioamrywiaeth. (ER17)
- Monitro'r newidiadau yn nyfroedd y glannau ac erydu'r glannau ym Mhenarth yn unol â Chynllun Rheoli'r Traethlin. (ER18)
- Cwblhau cyflwyno Cynllun Lliniaru Llifogydd Llanmaes. (ER18)




Yn ychwanegol at y camau uchod, nodwyd nifer o ddangosyddion i ddangos ein cynnydd yn erbyn yr Amcan Lles hwn. Mae'r dangosyddion a amlinellir yn **Atodiad D** yn adlewyrchu'r ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu ar draws y Cyngor i gyflawni'r Amcan Lles a gyda'i gilydd byddant yn ein galluogi i ddangos sut yr ydym yn cyflawni ein Hamcan Lles a chyfrannu at y Nodau Lles cenedlaethol.



Cynlyniad Llesiant 3: Bro Uchelgeisio a Diwylliannol Fywiog

Amcan 5: Codi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol



Cyfarwyddwr Noddi Amcan Llesiant

Paula Ham

Pam bod yr Amcan Llesiant hwn yn bwysig?

- Yn gyffredinol mae Bro Morgannwg yn ardal gyda lefelau da o gyrhaeddiad addysgol a chyfraddau incwm a chyflogaeth yn uwch na'r cyfartaledd. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn ein Hasesiad Llesiant yn tynnu sylw at y ffaith fod ardaloedd yn y Fro lle mae cyrhaeddiad addysgol yn is, a gellir cysylltu hyn ag incwm a lefelau cyflogaeth is.
- Ein huchelgais yw i ddeilliannau addysg fod y gorau yng Nghymru ac yn cyfateb i rai o'r awdurdodau mwyaf llwyddiannus yn Lloegr gyda phroffiliau cymdeithasol-economaidd tebyg. O'r herwydd, yr ydym wedi blaenoriaethu'r angen i godi safonau cyrhaeddiad ar bob lefel.
- Yr ydym yn cydnabod yr angen i **gydweithio** gyda'n partneriaid a dwyn cwsmeriaid **i mewn i integreiddio** ein gwasanaethau i gefnogi anghenion amrywiol ein pobl ifanc a hyrwyddo eu llesiant fel y gallant gyflawni eu potensial yn y **tymor hir**.
- Bydd cyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn yn cyfrannu at adeiladu **cymunedau mwy cyfartal a ffyniannus** gyda **diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus** yn graidd iddynt.

Beth yw ein heriau i gyflwyno'r Amcan Llesiant?

- Erys parhau i **godi lefelau cyrhaeddiad** yn erbyn cefndir o ostyngiad cenedlaethol mewn cyllid i addysg a chynnydd yn nifer y disgyblion yn ysgolion y Fro yn heriol. Y Fro yw'r awdurdod isaf yng Nghymru o ran cyllid i bob disgybl. Y mae anawsterau ariannol ar lefel ysgolion unigol (yn enwedig mewn ysgolion lle mae cost chwyddiant a chynnydd demograffig yn uwch na'r twf yn y gyllideb) yn gosod pwysau ychwanegol ar wasanaethau addysg canolog. (AC1)
- Sicrhau bod cyfraniad **Cyd-Wasanaeth Addysg Consortïwm Canol y De** mewn ysgolion yn parhau i gyflwyno'r effaith/gwelliannau angenrheidiol o ran codi cyrhaeddiad ar bob lefel mewn cyfnod ariannol heriol a chyda niferoedd disgyblion yn codi. (AC1)
- Mae sicrhau bod pob ysgol yn derbyn cefnogaeth ac yn parhau i ganoli ar weithio tuag at **system o hunan-wella** yn dal yn her o ystyried bod adnoddau yn lleihau. (AC1)

Beth yw ein heriau i gyflwyno'r Amcan Llesiant?

- Mae gwella perfformiad pob grŵp bregus, yn enwedig y sawl sydd â'r hawl i **brydau ysgol am ddim**, yn dal yn her, o ystyried bod adnoddau yn lleihau a nifer y disgyblion yn y Fro yn codi. (AC1)
- Cynnal lefelau priodol o gyflwyno gwasanaeth yng nghyswllt y **Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig** (GCLIE) yn y tymor hir o gofio na nodwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno'r gwasanaeth o 2019/20 ymlaen. (AC2)
- Mae angen gweithio gydag ysgolion i **leihau gwaharddiadau** a sicrhau y gall y ddarpariaeth gwrdd ag anghenion **plant a phobl ifanc gydag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl** mewn hinsawdd o adnoddau'n lleihau a galw yn cynyddu. (AC2)
- Y mae cryn her o ran ymdrin â grŵp cynyddol o bobl ifanc cymhleth a gafodd **brofiadau andwyol mewn plentyndod** (PAP) ac sydd angen cefnogaeth trwy ddarpariaeth wedi ei dargedu i'w helpu i gyrraedd eu llawn botensial, o ystyried bod adnoddau yn lleihau. (AC2)
- Gweithredu fframwaith monitro fel bod modd adolygu yn effeithiol ddeilliannau i **blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol**. (AC2)
- Bydd sicrhau bod y model gwasanaeth newydd ar gyfer darparu **gwasanaethau AAWY** (addysg ar wahân i'r ysgol) yn cyflwyno deilliannau cadarnhaol yn gyson i ddefnyddwyr gwasanaeth o fewn yr adnoddau presennol yn her, o ystyried nifer cynyddol y bobl ifanc heriol gydag anghenion cymhleth. (AC2)
- Cynnal cyfleoedd yn y tymor hir i **Ddysgu Oedolion a Chymunedol** yng nghyd-destun llai o gyllid. Bwriad Llywodraeth Cymru yw ail-ddosbarthu cyllid Dysgu Oedolion a Chymunedol ar hyd a lled Cymru ac y mae hyn yn debyg o arwain at doriad mewn cyllid i'r Fro o £100,000+ a thoriad i Ddinas a Sir Caerdydd o £500,000+ (£600,000 ar draws y rhanbarth am 2019/20). (AC3)
- Mae **leihau nifer y bobl ifanc heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant** (NEET) yn flaenoriaeth i'r Cyngor gan ganolbwyntio yn benodol ar NEET Blwyddyn 13. Fodd bynnag, mae'n dal yn her cael data cyrchfannau manwl gywir am adawyr Blwyddyn 13 ac y mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn parhau i weithio'n agos gyda Gyrfa Cymru i wella'r data manwl am gyrchfannau Blwyddyn 13 er mwyn targedu eu mentrau yn well. (AC4)
- Erys **gwella presenoldeb mewn ysgolion** yn flaenoriaeth. Mae angen sicrhau bod cyfraddau presenoldeb plant a phobl ifanc, yn enwedig mewn ysgolion cynradd, yn gwella. (AC4)
- Diffyg gallu i gwrdd â gofynion estynedig y ddarpariaeth **Anghenion Dysgu Ychwanegol** (o enedigaeth i 25 mlynedd) yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) hen adnoddau ariannol ychwanegol i gyllidebau addysg yn ganolog ac ysgolion unigol. (AC7)
- Darparu cefnogaeth i gwrdd â nifer cynyddol y plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) / problemau cymhleth mewn hinsawdd o **ddisgwyliadau uwch gan gwsmeriaid, llai o allu gan y gwasanaeth a chyllidebau llai**. (AC7)
- Ymdrin â darpariaeth i'r nifer cynyddol o ddisgyblion a nodwyd fel rhai ag **Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistiaeth** (ASA), sydd ar hyn o bryd yn rhoi pwysau enfawr ar y gyllideb ac ar leoliadau a'r Uned Cyfeirio Disgyblion a Chanolfannau Adnoddau Arbennig. (AC7)
- Mae cynnal lefelau gwasanaeth priodol o ran **gwasanaethau addysg arbenigol** yn dal yn her, o ystyried y galw cynyddol a'r gostyngiad mewn adnoddau. (AC7)
- Sicrhau bod y gallu ar gael i fwrw ymlaen â phrosiectau cysylltiedig â **Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif**, yn benodol trawsnewid ysgolion uwchradd y Barri, ysgol y Glannau ac ymgynghoriadau eraill yng Ngorllewin y Fro. (AC8)
- Sicrhau'r gallu i gyflwyno **rhaglen gyfalaf uchelgeisiol** i wella ein hysgolion. Cynlluniau'r Cyngor ar gyfer Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru, sy'n gyfanswm o fwy na £143 miliwn, yw'r mwyaf ymysg awdurdodau lleol Cymru o ystyried maint yr awdurdod lleol. (AC9)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?


- Dal Cyd-Wasanaeth Addysg Consortïwm Canol y De i gyfrif am gyflwyno ei Gynllun Busnes 2019/20 gyda'r nod i wella safonau cyrhaeddiad a llesiant bob dysgwr ym Mro Morgannwg. (AC1)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?

- Bwrw ymlaen â Chynllun Peilot Rheoli Busnes ysgolion, gan ddatblygu mwy o gydweithio rhwng ysgolion a rhannu profiadau, gwybodaeth ac arferion da. (AC1)
- Datblygu mwy ar ONE (meddalwedd i helpu i fonitro perfformiad plant bregus) er mwyn adolygu data am boblogaeth disgyblion a thueddiadau yng nghyswllt grwpiau bregus er mwyn bod yn sail well o wybodaeth i'r ddarpariaeth, a'i thargedu yn well. (AC2)
- Nodi ffordd ymlaen i gynnal lefelau priodol o'r Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (GCLIE) yng ngoleuni'r ffaith y bydd Llywodraeth Cymru yn tynnu'n ôl y cyllid o'r grant Gwella Addysg o 2019/20 ymlaen. (AC2)
- Gwreiddio trefniadau rheoli contractau o ran y ddarpariaeth gwasanaethau AAWY (addysg ar wahân i'r ysgol) a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y model gwasanaeth newydd yn cyflwyno deilliannau cyson gadarnhaol i ddefnyddwyr y gwasanaeth. (AC2)
- Gweithredu fframwaith monitro fel bod modd adolygu a gwella deilliannau i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. (AC2)
- Gweithio gyda'r consortiwm i weithredu strategaethau i wella perfformiad disgyblion yn y Fro sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, yn unol â blaenoriaethau cynllun busnes y Consortiwm am 2017/20. (AC2) Ymdrin â'r galw ychwanegol am ddarpariaeth wedi ei thargedu i bobl ifanc â phrofiadau andwyol mewn plentynod (PAP). (AC2)
- Gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu polisi Parhad Gofal sydd yn gosod allan fframwaith cytunedig i ymdrin â phedynau parhad gofal i blant a phobl ifanc nad oes modd cwrdd â'u hanghenion yn yr ardal hon gan wasanaethau cyffredinol ac arbenigol yn unig. (AC2)
- Nodi cyfleoedd i weithio gyda gweithwyr ieuchyd proffesiynol i ddatblygu gwasanaethau i wella'r gefnogaeth i blant a phobl ifanc gydag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ieuchyd meddwl cymhleth. (AC2)
- Parhau i fonitro effaith rhaglenni ar unigolion a theuluoedd bregus a datblygu darpariaeth yn unol â blaenoriaethau a meini prawf cyfredol Llywodraeth Cymru am Deuluoedd yn Gyntaf. (AC3)
- Parhau i ddarparu mynediad digidol a chyfleoedd llythrennedd wedi eu targedu gan gyfeirio'n benodol at ardaloedd difreintiedig a grwpiau anodd eu cyrraedd. (AC3)
- Parhau i ddefnyddio Cyllid Cymdeithasol Ewrop i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n aros mewn addysg, yn mynd i waith neu hyfforddiant gan ganoli'n arbennig ar grŵp oedran 11-24. (AC4)
- Parhau to work with ysgolion to reduce pupil absence and exclusions, particularly in primary ysgolion. (AC4)
- Cyfoethogi mwy ar weithio partneriaeth gyda C4W, I2W a Llamau i gefnogi dysgwyr 16 a hŷn sydd yn NEET gan ddefnyddio model 5 haen Gyrfa Cymru. (AC5)
- Nodi darpariaeth ôl-16 i ddisgyblion ADY a gwneud gwaith paratoi i fwrw ymlaen â gweithredu cynllun gweithredu Rhanbarthol Deddf ADY a Thribiwnlys Addysg (Cymru). (AC5)
- Cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru am swyddogaethau, cyfrifoldebau ac adnoddau ar gyfer darpariaeth ADY ôl-16. (AC5)
- Ymwneud ac ymgynghori â phobl ifanc ar ddatblygu'r strategaeth ieuenctid cenedlaethol a gwreiddio'r model gwasanaeth ieuenctid newydd yn unol â'r strategaeth genedlaethol. (AC6)
- Gweithio tuag at gyrraedd Nod Ansawdd Arian Gwaith Ieuenctid i wasanaethau Cefnogi Ieuenctid Bro Morgannwg. (AC6)
- Cydweithredu gyda gweithwyr proffesiynol arweiniol mewn ieuchyd a thai i ddatblygu darpariaeth ieuenctid i bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref a/neu ddioddef loes feddyliol. (AC6)
- Bwrw ymlaen â Chynllun Gweithredu Rhanbarthol Canol y De Deddf ADY a Thribiwnlys Addysg (Cymru) gyda chanolbwynt arbennig ar yr wyth ardal blaenoriaeth gan gynnwys: codi ymwybyddiaeth, datblygu'r gweithlu, cefnogaeth a darpariaeth i ddysgwyr ôl-16, darpariaeth y blynyddoedd cynnar, ymwneud ag ieuchyd, darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth ADY am ddisgwyliadau'r gwasanaeth. Datblygu Strategaeth ADY newydd i adlewyrchu Deddf ADY a blaenoriaethau lleol. (AC7)
- Bwrw ymlaen â Chymunedau Dysgu Uwchradd y Barri trwy gael cymeradwyaeth i achosion busnes terfynol (ABT) a chychwyn adeiladu. (AC8)
- Cadarnhau'r briff a lleoliad Canolfan Dysgu a Llesiant y Barri. (AC8)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?

- Cwblhau ymgynghori statudol a phrosesu achosion busnes lle bo hynny'n briodol ar gyfer ysgol y Glannau a Dewi Sant yn ogystal ag unrhyw brosiectau eraill a nodwyd ar gyfer ymgynghori cynnar. (AC9)
- Bod yn gliriach am ofynion addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yng Ngorllewin y Fro a Phenarth. (AC9)




Yn ychwanegol at y camau uchod, nodwyd nifer o ddangosyddion i ddangos ein cynnydd yn erbyn yr Amcan Lles hwn. Mae'r dangosyddion a amlinellir yn **Atodiad D** yn adlewyrchu'r ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu ar draws y Cyngor i gyflawni'r Amcan Lles a gyda'i gilydd byddant yn ein galluogi i ddangos sut yr ydym yn cyflawni ein Hamcan Lles a chyfrannu at y Nodau Lles cenedlaethol.



Cynlyniad Llesiant 3: Bro Uchelgeisiol a Diwylliannol Fywiog

Amcan 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth



Cyfarwyddwr Noddi Amcan Llesiant

Paula Ham

Pam bod yr Amcan Llesiant hwn yn bwysig?

- Mae gan y Cyngor rôl allweddol mewn cyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Mae pawb yn cydnabod fod cymryd rhan mewn diwylliant a chreadigrwydd yn cael effaith gadarnhaol amlwg ar iechyd a llesiant ac ategir hyn gan 'Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru' Llywodraeth Cymru fel blaenoriaeth.
- Yr ydym yn parchu ac yn rhoi gwerth ar amrywiaeth yn ein cymunedau ac yn cydnabod pwysigrwydd hyrwyddo cydraddoldeb cyfle.
- Yr ydym yn cydnabod yr angen i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau trwy weithio **ar y cyd** gyda phartneriaid a **dwyn i mewn** randdeiliaid allweddol mewn datblygu agwedd **integredig** at gynyddu nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg trwy ein haddysg a'n systemau a throi'r dysgwyr hyn yn siaradwyr at y dyfodol **tymor hir**.
- Yr ydym yn gwerthfawrogi ein treftadaeth a'n diwylliant unigryw ac yn cydnabod pa mor bwysig yw i bob oed fwynhau amrywiaeth o weithgareddau a chael y cyfle i fod yn greadigol.
- Bydd canolbwyntio ar yr Amcan Llesiant hwn yn ein galluogi i wella mwy ar ein treftadaeth a'n diwylliant unigryw a chyfrannu tuag at **gymunedau iachach, mwy cyfartal a chydlynus** lle mae dinasyddion yn mwynhau cyfleoedd i fod yn greadigol a defnyddio'r **iaith Gymraeg** yn ddyddiol - yn gymdeithasol, yn y gwaith, wrth gyrchu gwasanaethau a mwynhau hamdden.

Beth yw ein heriau i gyflwyno'r Amcan Llesiant?

- Mae'r graddau y mae data cydraddoldeb yn cael ei ddadansoddi a'i ddefnyddio i wella gwasanaethau yn dal i fod yn amrywiol ar draws y Cyngor. Rhaid parhau i weithio gyda gwasanaethau'r cyngor i wella ansawdd y data monitro cydraddoldeb ac ategu a **gwella ansawdd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb** fel bod penderfyniadau yn gallu cael eu gwneud ar sail mwy o wybodaeth am gyflwyno gwasanaethau a lleihau tebygolrwydd heriau cyfreithiol. (AC10)
- Bydd lansio Strategaeth Gymraeg 2050 (cyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050), ac adolygiad sydyn Llywodraeth Cymru o fframwaith **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** (CSGA) yn cael effaith sylweddol ar Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a gofynion y Cyngor o fewn ei CSGA lleol. Caiff y newidiadau deddfwriaethol sydd ar droed, a ddaw i rym o 2019 ymlaen,

Beth yw ein heriau i gyflwyno'r Amcan Llesiant?

oblygiadau ariannol sylweddol a byddant yn cael effaith ar yr holl wasanaethau sy'n bwydo i mewn i'r CSGA gan gynnwys cyflwyno cefnogaeth arbenigol neu drosiannol trwy gyfrwng y Gymraeg. (AC12)

- Mae sicrhau cyflwyno blaenoriaethau'r Cyngor fel y'u hamlinellwyd yn ei Strategaeth Celfyddydau newydd, **Bro Uchelgeisiol a Diwylliannol Fywiog 2018-2022**, yng nghyd-destun lleihau adnoddau yn her sylweddol. Mae angen datblygu gwytnwch mudiadau diwylliannol a chreadigol a thrwy hynny sicrhau bod gweithlu'r Fro yn awr ac yn y dyfodol yn meddu ar y sgiliau priodol i alluogi i'w heconomi creadigol ffynnu a galluogi (trwy bartneriaeth) gyfleoedd dysgu gydol oes wedi eu hysbrydoli gan ddiwylliant i bawb yn y Fro, a hynny gydag adnoddau cyfyngedig. (AC15)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?

- Atgyfnerthu a gwella ansawdd Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a gynhyrchir ar draws y Cyngor gan gynnwys: (AC10)
 - Cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb (AEC) mewn perthynas â'r Gwasanaeth Archwilio rhanbarthol a chyllideb flynyddol y Cyngor ar gyfer 2019/20. (AC10)
 - Parhau i ymwneud â grwpiau gwarchodedig fel bod eu barn yn sail o wybodaeth i ddatblygiadau gwasanaeth. (AC10)
 - Gwella data monitro cydraddoldeb o feysydd gwasanaeth fel y gall gwasanaethau wneud penderfyniadau ar sail mwy o wybodaeth am gyflwyno gwasanaethau. (AC10)
- Cyflwyno'r camau cydraddoldeb allweddol am 2019/20 fel y'u hamlinellwyd yn ein cynllun gweithredu Stonewall. (AC10)
- Gweithio tuag at gyrraedd gwobr arian yn safon cydraddoldeb Insport. (AC10)
- Gweithredu camau allweddol am 2019/20 fel y'u hamlinellwyd yn Strategaeth Hyrwyddo Iaith Gymraeg y Cyngor. (AC11)
 - Cynnig y Gymraeg fel dewis safonol pan fydd cwsmeriaid eisiau cyrchu gwasanaethau ar draws pob sianel. (AC11)
 - Parhau i weithio'n agos gyda Menter Bro Morgannwg a'r Urdd i hyrwyddo'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg. (AC11)
 -
- Cyfrannu at weledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru trwy weithredu'r blaenoriaethau a amlinellwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Bro Morgannwg gan gynnwys:
 - Cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar y lefelau cynradd ac uwchradd. (AC12)
 - Datblygu mwy ar yr ystod o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion y Fro sy'n 14-19 oed. (AC12)
 - Datblygu a hyrwyddo cyfleoedd am ddatblygu proffesiynol i sicrhau bod digon o athrawon ac ymarferwyr i gyflwyno addysg cyfrwng-Cymraeg yn y Fro. (AC12)
 - Cynyddu darpariaeth cyfrwng-Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. (ADY) (AC12)
- Parhau i weithredu'r Safonau Iaith Gymraeg ac adolygu cynnydd. (AC12)
- Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr o bob oed ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg y tu allan i'r ysgol/dosbarth. (AC12)
- Parhau i ddarparu cyfleoedd i weithwyr a gwirfoddolwyr gymryd cyrsiau i ddysgu a gwella eu rhuglder yn y Gymraeg. (AC12)
- Parhau i weithredu a gwreiddio Fframwaith Mwy na Geiriau ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol. (AC12)
- Parhau i ddarparu cefnogaeth i lyfrgelloedd cymunedol trwy staff llyfrgell yn teithio o'r prif lyfrgelloedd. (AC13)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?

Hyrwyddo mwy ar y defnydd o'r system llyfrgell hunan-wasanaeth 'Open+' yn ein llyfrgelloedd, fel bod defnyddwyr yn gallu eu cyrraedd yn well. (AC13)

Adolygu darpariaeth TGCh i'r Cyngor a Llyfrgelloedd Cymunedol er mwyn sicrhau bod y WiFi a'r Rhyngwrdd a gynigir yn ddigonol at anghenion ceiswyr swyddi, dysgwyr, tiwtoriaid, partneriaid ac aelodau'r llyfrgell. (AC13)

Parhau i adolygu effaith unrhyw gynlluniau ar gyfer trefniadau Gweinyddu Systemau ledled Cymru ar gyfer y System Rheoli Llyfrgelloedd (SRhLI) newydd. (AC13)

- Parhau i ddatblygu ystod eang o gyfleoedd dysgu yn Hwb Addysg a Chelfyddydau'r Fro a chynyddu defnydd ac ymwneud ar sail gwybodaeth o adolygiad o weithgareddau. (AC14)
- Darparu gweithgareddau diwylliannol/dinasyddiaeth heb fod yn seiliedig ar y dosbarth trwy ddefnyddio adnoddau orielau a llyfrgelloedd i wneud ffoaduriaid o Syria yn gyfarwydd â'u cartref newydd. (AC14)
- Cyflwyno rhaglen beilot o gyrsiau cyfnos i ddysgwyr mewn 'todi mewn gwaith' a fydd yn manteisio ar fodel Open+ yn y llyfrgell a'r ganolfan ddysgu i gynyddu'r defnydd y tu allan i oriau. (AC14)
- Gweithredu Strategaeth Celfyddydau a Diwylliant Bro Morgannwg 'Bro Uchelgeisiol a Diwylliannol Fywiog 2018-2022' gan ganolbwyntio ar y canlynol yn 2019/20:
 - Datblygu rhaglen Celfyddydau ar gyfer 2019/20 gan ganoli mwy ar gynhyrchu incwm, e.e. arddangosfeydd masnachol.
 - Ymestyn cyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau i gael mwy o bobl gan gynnwys ymweliadau gan fudiadau allanol; sgysiau gan artistiaid a haneswyr enwog a lleol; gweithdai mewn ysgolion; digwyddiadau cymunedol, digwyddiadau gwobrwyo, arddangosfeydd a digwyddiadau eraill.
 - Datblygu 'Rhwydwaith Crefft' yn y Fro wledig wedi'i gefnogi gan gyllid o Gymunedau Gwledig Creadigol. (AC15)
- Amddiffyn a chyfoethogi treftadaeth adeiledig, naturiol a diwylliannol Bro Morgannwg trwy benderfyniadau rheoli datblygu. (AC16)
- Parhau i hyrwyddo rhagoriaeth mewn adeiladwaith trwy wobrau LABC. (AC16)




Yn ychwanegol at y camau uchod, nodwyd nifer o ddangosyddion i ddangos ein cynnydd yn erbyn yr Amcan Lles hwn. Mae'r dangosyddion a amlinellir yn **Atodiad D** yn adlewyrchu'r ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu ar draws y Cyngor i gyflawni'r Amcan Lles a gyda'i gilydd byddant yn ein galluogi i ddangos sut yr ydym yn cyflawni ein Hamcan Lles a chyfrannu at y Nodau Lles cenedlaethol.



Cynlyniad Llesiant 4: Bro Heini ac Iach

Amcan 7: Annog a hyrwyddo ffordd o fyw heini ac iach



Cyfarwyddwr Noddi Amcan Llesiant

Lance Carver

Pam bod yr Amcan Llesiant hwn yn bwysig?

- Mae gan y Fro boblogaeth sydd yn gymharol iach a bywiog. Fodd bynnag mae tystiolaeth a ddaeth i'r amlwg yn ein Hasesiad Llesiant yn dangos fod peth gwahaniaeth rhwng ardaloedd a grwpiau poblogaeth.
- Yr ydym yn cydnabod pwysigrwydd **atal** ac ymyriad cynnar o ran gwella a chynnal iechyd a llesiant er mwyn cefnogi ein dinasyddion i wneud newidiadau **tymor hir** i'w dulliau o fyw a'u hymddygiad.
- Yr ydym yn cydnabod yr angen i ganoli ar wella gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar trwy well **integreiddio** a **chydweithio** i roi i blant a phobl ifanc y 'cychwyn gorau mewn bywyd'. Mae hyn hefyd yn golygu canoli ar roi cyfle i bobl o bob oed i **ddod yn rhan** ac i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgaredd corfforol er mwyn byw bywydau mwy iach.
- Bydd canoli ar yr amcan hwn yn ein galluogi i ddatblygu cymunedau mwy gwydn, iachach, cyfartal a chydlynus sydd â diwylliant bywiog a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Beth yw ein heriau i gyflwyno'r Amcan Llesiant?

- Y gallu a'r medr i gwrdd â'r galw cynyddol am wasanaethau i gefnogi plant a theuluoedd a sicrhau y gellir cwrdd ag anghenion ac ar yr un pryd **leihau unrhyw orgyffwrdd/dyblygu yn y ddarpariaeth gwasanaeth presennol** (AH4)
- Er ein bod yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd a Lles Caerdydd a'r Fro i **hyrwyddo negeseuon bwyta'n iach a dulliau iach o fyw**, gall y gallu i beri newid fod yn araf ac yn anodd ei ddangos. Yr ydym yn parhau i wneud yn siŵr ein bod yn cynnal proffil uchel yn holl gyfarfodydd perthnasol y Bwrdd er mwyn sicrhau bod gennym lais ar fentrau sy'n dod i'r amlwg, i ni allu bod â rhan a dylanwad dros ddatblygiadau. (AH5)
- Mae maint ein **medr** yn effeithio ar ein gallu i gwrdd â gofynion Llywodraeth Cymru yng nghyswllt Teithio Llesol. (ER5)
- Mae **sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau a chyfleusterau hamdden** ledled Bro Morgannwg yn heriol yn enwedig o ran hyfywedd contractio unrhyw ddarpariaeth allan ar adeg pan fo cyllidebau yn dal i grebachu. (AH1) (AH6)
- Mae **cynnal a gwella lefelau cyfranogi mewn gweithgaredd corfforol ar adeg pan fo adnoddau'n lleihau** yn her wirioneddol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar adeg pan ystyrir rhanbartholi Datblygu Chwaraeon trwy drefniant Consortiwm. Mae hyn yn fygythiad i gyllido


Beth yw ein heriau i gyflwyno'r Amcan Llesiant?

darpariaeth fwy lleol. Y mae perygl y gallai datblygu chwaraeon sy'n cael ei gyflwyno trwy drefniant Consortiwm olygu bod y Fro yn colli ei hannibyniaeth dros y modd mae'n datblygu rhaglen leol o weithgareddau wedi eu teilwrio i anghenion. (AH1)

- Bydd **cyflwyno rhaglen uchelgeisiol a chynhwysfawr o chwarae** sy'n unol â gofynion deddfwriaeth newydd yn parhau i fod yn her pan fo cyllidebau yn lleihau. Mae'n anodd targedu grwpiau 'anodd eu cyrraedd' yn effeithiol i gysylltu â gwasanaeth megis y rhaglen chwarae a gwasanaethau cefnogi'r blynyddoedd cynnar i gael y deilliannau gorau posib i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. (AH3)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?

- Gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno amrywiaeth o weithgareddau trwy ein cyfleusterau hamdden a chymunedol a'n parciau i gynyddu lefelau cyfranogi a gweithgaredd corfforol. (AH1)
- Gweithio gyda'n partneriaid i gyflwyno Strategaeth Gomisiynu Camddefnyddio Sylweddau Caerdydd a'r Fro 2013-2018, gan roi cefnogaeth, gwybodaeth ac ymyriadau effeithiol. (AH2)
- Cefnogi cyflwyno cynllun peilot Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru. (AH4)
- Adolygu effeithiolrwydd y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a'r cyfeiriadau cysylltiedig o ran darparu Gwybodaeth a Chefnogaeth i Deuluoedd. (AH4)
- Adolygu ac ymestyn y meini prawf oedran mewn perthynas â'r Mynegai (Cofrestr Wirfoddol o Blant a Phobl Ifanc gydag anableddau neu anghenion ychwanegol). (AH4)
- Cyfrannu at Agenda Lleol Iechyd Cyhoeddus Cymru trwy hyrwyddo ac annog bwyta'n iach a dulliau iachach o fyw yn ein gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol ar gyfer 2019/20 gyda'n partneriaid mewn Iechyd Cyhoeddus, parhau i fonitro cydymffurfio a'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru), cyflwyno hyfforddiant a chynngor i bob ysgol i gyrraedd Lefel 4 neu 5 mewn cyfradd Hylendid yn yr holl geginau ysgol, cymryd camau i gefnogi darpariaethau Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 a chymryd camau i gefnogi darpariaethau Deddf Iechyd Cyhoeddus (Isafswm Pris Alcohol) (Cymru) 2018. (AH5)
- Parhau i fonitro cydymffurfio â Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) (AC5)
- Cyrraedd statws Baner Werdd i 7 parc fel nod o ragoriaeth, gan ddangos mwynderau da ac ymwneud cymunedol yn y parciau (AH6).
- Gweithredu Rhwydwaith Integredig a Mapiau Teithio Llesol i roi adnoddau wybodaeth gynhwysfawr i drigolion ac ymwelwyr er mwyn teithio'n effeithlon a diogel. (ER5)




Yn ychwanegol at y camau uchod, nodwyd nifer o ddangosyddion i ddangos ein cynnydd yn erbyn yr Amcan Lles hwn. Mae'r dangosyddion a amlinellir yn **Atodiad D** yn adlewyrchu'r ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu ar draws y Cyngor i gyflawni'r Amcan Lles a gyda'i gilydd byddant yn ein galluogi i ddangos sut yr ydym yn cyflawni ein Hamcan Lles a chyfrannu at y Nodau Lles cenedlaethol.



Cynlyniad Llesiant 4: Bro Heini ac Iach

Amcan 8: Diogelu pobl fregus a hyrwyddo byw yn annibynnol



Cyfarwyddwr Noddi Amcan Llesiant

Lance Carver

Pam bod yr Amcan Llesiant hwn yn bwysig?

- I wella llesiant ein trigolion a chyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol, mae'n bwysig fod ein cymunedau yn teimlo'n ddiogel ac yn gallu byw mor annibynnol ag sydd modd.
- Mae gan y Fro boblogaeth sy'n gymharol heneiddio a dangosodd yr Asesiad Llesiant fod canran uchel o bobl 65+ oed sy'n byw ar eu pennau eu hunain. Er bod ein hamcan yn canoli ar wella lefelau o annibyniaeth, rhaid i hynny fod mewn ffordd fod ein dinasyddion yn teimlo eu bod yn rheoli a'u bod yn **rhan** o ddiffinio eu hanghenion gofal a chefnogaeth fel eu bod yn gallu byw eu bywydau'n llawn a sicrhau gwell deilliannau.
- Mae diogelu oedolion a phlant rhag camdriniaeth a/neu esgeulustod yn ganolog i'r hyn a wnawn fel sefydliad. Un o egwyddorion allweddol diogelu yw ei fod yn 'gyfrifoldeb pawb'.
- Bydd canolbwynt yr amcan hwn ar sicrhau y gallwn barhau i sefydlu prosesau a gweithdrefnau cyson a chadarn fydd yn gwneud yn siwr y gallwn barhau i wneud ein dyletswyddau diogelu.
- Mae'n hanfodol canolbwyntio ar ymyriad ac **atal** cynnar. Trwy weithio ochr yn ochr â phartneriaid, gallwn sicrhau ein bod yn parhau i gwrdd â'n dyletswyddau diogelu ac amddiffyn y dinasyddion mwyaf bregus mewn cymdeithas ac ar yr un pryd wella eu hymdeimlad o lesiant yn y **tymor hir**.
- Mae'n hanfodol ein bod yn gwneud mwy i wella a chefnogi unigolion bregus i fyw yn fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Bydd y pwyslais ar wella lefelau o **gydweithredu** ac **integreiddio** rhwng y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau y gallwn gyflwyno gwasanaethau diwniad sy'n rhoi anghenion ein dinasyddion yn gyntaf ac yn gwella eu hymdeimlad o lesiant.
- Bydd canolbwyntio ar yr amcan hwn yn ein galluogi i atgyfnerthu'r ffordd yr ydym yn diogelu ein hunigolion mwyaf bregus a hyrwyddo byw annibynnol ar yr un pryd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn adeiladu **cymunedau mwy cyfartal a chydlynus** lle mae ein dinasyddion yn **iachach** ac yn meddu ar ymdeimlad cryf o lesiant.

Beth yw ein heriau i gyflwyno'r Amcan Llesiant?

- Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi nifer sylweddol o ddyletswyddau a gofynion ar awdurdodau lleol. Er bod mecanweithiau cadarn ar gael, mae heriau o hyd mewn perthynas â'n **gallu i gwrdd yn llawn â gofynion y Ddeddf mewn hinsawdd lle mae cyllidebau yn crebachu a'r galw am Wasanaethau Cymdeithasol yn cynyddu.** (AH7)
- Mae **cynnal a gwella lefelau o gyflwyno gwasanaethau a pherfformiad a rheoli disgwyliadau ar yr un pryd yn gynyddol heriol.** Mae newidiadau demograffig yn cael effaith sylweddol. Mae poblogaeth Bro Morgannwg yn heneiddio, ac y mae mwy o blant a phobl ifanc a'u teuluoedd ac oedolion yn dangos lefelau uwch o angen ac anghenion iechyd cymhleth, sy'n effeithio ar ein gallu i wella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. (AH8)
- Yn yr un modd, ar waethaf ein hagwedd flaengar at weithio gyda'n partneriaid, mae **cydweithredu yng nghyswllt datblygu modelau amgen o gyflwyno gwasanaethau yn dal yn her mewn hinsawdd lle mae adnoddau'n lleihau.** Yn gysylltiedig â hyn y mae'r ffrydiau cyllid grantiau sydd ar gael, e.e., y Gronfa Gofal Integredig, yn effeithio ar ein gallu i barhau i ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar arloesedd a chreu galluedd a dal i gwrdd â'n gofynion statudol i gyflwyno gwasanaethau craidd. Gall gostyngiad mewn ffrydiau cyllid grant a phroblemau ac oedi ar lefel ranbarthol hefyd gael effaith ar ein gallu i fwrw ymlaen ymhellach ag integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion a'u trawsnewid mewn modd amserol. Bydd angen cryn swm o fuddsoddiad i hwyluso mwy o integreiddio ar wasanaethau. (AH9)
- Yng ngoleuni'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae mwy o bwyslais ar ddatblygu a rhedeg trefniadau ar y cyd i'n galluogi i wneud mwy o gyd-gomisiynu gwasanaethau er mwyn cyflwyno model gofal sy'n canoli mwy ar y dinesydd. Mae **heriau yn gysylltiedig â datblygu agweddau llyfnach** at ddatblygu/comisiynu gwasanaethau ataliol sydd yn nes at ei gilydd ar draws ffiniau sefydliadol. Er enghraifft, bydd gweithredu agwedd gomisiynu seiliedig ar ddeilliannau ar draws gofal cartref cyfan yn heriol. (AH10)
- Mewn hinsawdd lle mae adnoddau yn cael eu gwasgu'n gynyddol, mae pwysau ar ein **gallu i sicrhau bod gweithdrefnau diogelu yn dal yn gadarn, eu bod yn cael eu hadolygu a'u cyfoesi yn gyson yn ogystal â chael eu cymhwyso'n gyson.** (AH11)
- **Erys ein gallu i ostwng oedi cyn trosglwyddo gofal ymhellach yn her.** O ran Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal, mae pwysau cyllidebol yn dal i gael effaith ar ein perfformiad yn y maes hwn. (AH12)
- Mae **angen i ni atgyfnerthu'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n partneriaid i weithredu yn effeithiol y strategaeth am Lety gyda Gofal a all ymateb yn effeithiol i anghenion ein dinasyddion trwy ddarparu llety priodol gyda gofal a chefnogaeth.** (AH13)
- **Gwreiddio'r arferion da sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant.** Mae heriau hefyd yn y modd yr ydym yn ymateb i'r dirwedd polisi sy'n newid yng nghyswllt Cam-fanteisio Rhywiol ar Blant (CRhB) wedi ei sbarduno gan Lywodraeth Cymru ac ar lefel ranbarthol o ran y modd yr ydym yn cyflwyno'r modelau at y dyfodol. (AH14)
- Bydd **cyflwyno rhaglen archwilio wedi'i thargedu fel rhan o Wasanaeth Rheoleiddio wedi'i Rannu yn erbyn cefndir o adnoddau sy'n crebachu** yn parhau i fod yn heriol. O ganlyniad, bydd hyn yn golygu y bydd angen i ni gyflwyno mwy o'n gwasanaethau gan ddefnyddio agwedd seiliedig ar risg i reoli a blaenoriaethu cyflwyno gwasanaethau yn well. (AH16)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?


- Gweithredu cynlluniau asesu, gofal a chefnogaeth newydd (Rhannau 4 a 6) i gryfhau ein gwaith yng nghyswllt cyd-gynhyrchu wrth weithio gyda phlant a'u teuluoedd (AH7).
- Datblygu'r defnydd ehangach a mwy priodol o'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth/Ilinell Gynghori Teuluoedd yn Gyntaf fel un pwynt cyswllt i'r gwasanaeth (AH7).
- Datblygu cronfa ranbarthol o bolisïau ar gyfer plant ac oedolion yn unol â gofynion y Ddeddf (AH7).
- Datblygu gwefan sy'n hygyrch i ymarferwyr a'r cyhoedd i fod yn sail o wybodaeth i bolisïau, gweithdrefnau ac arferion (AH7).

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?

- Cyfrannu at yr adolygiad o Fframwaith Rheoli Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol a'i weithredu (AH7).
- Gweithredu contract Gofal Cartrefi Preswyl/Nyrsio seiliedig ar ddeilliannau a ddatblygir ar y cyd gydag Iechyd a Chyngor Caerdydd (AH7).
- Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu Cynllun Blynnyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (AH7).
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol dros Integreiddio i ddatblygu agwedd fwy cyfun at ddatblygu gwasanaethau ataliol sydd wedi ei hasio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i hyrwyddo byw annibynnol yn well yng nghyswllt oedolion (AH7).
- Sefydlu a chynnal cynllun peilot mecanwaith herio effeithiol i broses Fframwaith Adrodd Blynnyddol y Cyngor (FfABC) ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i wella mwy ar ein hagwedd at ymwneud gan ddinasyddion (AH7).
- Parhau i nodi cyfleoedd i gyd-gomisiynu lle gellir dangos bod hyn o les ac yn unol â'r dyletswyddau a osodir allan yn Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (AH7).
- Parhau â gwaith y Grŵp Llywio Rhanbarthol (blaenoriaethau sydd wedi eu gosod allan yn y Cynllun Gweithredu) a bwrw ymlaen â gwaith fel rhan o agenda Cymru Iachach (AH7).
- Sefydlu proses fonitro ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) trwy'r Grŵp Llywio (AH7).
- Cyflwyno blaenoriaethau'r Rhaglen Waith Gomisiynu Ranbarthol am 2019/20 (AH7).
- Gweithredu'r dewis gorau ar gyfer y Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid fel un pwynt cyswllt i wella mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol diwniâd (AH7).
- Cyfoesi prosesau yn y Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid i gefnogi darparu'r model Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh) yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (AH7).
- Adolygu effeithiolrwydd y model gwasanaethau ail-alluogi yn y Fro i gefnogi unigolion i adennill lefel o annibyniaeth (AH7).
- Cynnal cynllun peilot triage meddygon teulu ym Mro Morgannwg (AH8).
- Ehangu pellach ar y Cynllun Lleoli Oedolion (AH8).
- Gweithredu Strategaeth Gomisiynu Anabledd Dysgu ar y cyd er mwyn sicrhau y gallwn gwrdd yn effeithiol ag anghenion a deilliannau defnyddwyr ein gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol (AH8).
- Rhesymoli holiaduron Cynrychiolwyr Cwsmeriaid ar un ffurflen i ddal gwybodaeth swyddogaethol a'r deilliannau personol sydd eu hangen (AH8).
- Monitro a gwella fersiwn terfynol y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i wneud y defnydd gorau o ddewisiadau atal a lleihau dibyniaeth ar Dderbyn ac Asesu (AH8)
- Cyfoesi prosesau rheoli cyfeirio yn y Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid i leihau nifer y bobl sy'n aros yn y ciw CRM am alwad yn ôl/cyfraniad gwaith cymdeithasol.
- Bwrw ymlaen â gwaith prosiect rhwng y cenedlaethau sy'n dwyn i mewn ysgolion lleol a lleoliadau gofal preswyl (AH9).
- Cwblhau gwaith prosiect cysylltiedig â chreu amgylchedd 'Cyfeillgar i Dementia' yn Nhŷ Dewi Sant (AH9).
- Gweithredu protocol rhanbarthol i gefnogi prosesau trosi ar draws yr holl Wasanaethau Oedolion (AH9).
- Gweithredu'r Gwasanaeth Ymweld Nos a Mwy 'Dewch â Mi Adref' fel rhan o broses Cyllido Trawsnewid (AH9).
- Ymchwilio i ddatblygu model integredig am y Gwasanaeth Gofal Tymor Hir a Thîm y Nyrsys Asesu yn Nhŷ Jenner. (AH9).
- Adolygu cyfleoedd i ddatblygu Prosesau Gofal Iechyd Parhaus clir
- Gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu Model Lleoliad y Fro mewn ymateb i argymhellion yr Adolygiad Seneddol (AH9).

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at yr Amcan Llesiant hwn?

- Cynnal adolygiad ffurfiol o'r trefniadau rhannu presennol, a lle bo angen, gosod cytundebau ffurfiol yn eu lle (AH10).
- Gweithredu Contractau ar y Cyd mewn perthynas â chartrefi Gofal Nyrsio a Phreswyl er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y partneriaid yn y modd mae gwasanaethau yn cael eu contractio na'u cyflwyno gan y darparwyr (AH10).
- Parhau i wreiddio System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (SWGCC) yn y Gyfarwyddiaeth gan ganoli ar ddatblygu modiwlau sy'n briodol i anghenion busnes trwy weithredu/cynnal cynllun peilot ar ddefnyddio'r modiwl ariannol a datblygu cyfres o adroddiadau craidd i gwrdd â'r gofynion statudol am adrodd (AH10).
- Bwrw ymlaen â thrafodaethau fel y gall system SWGCC weithredu yn rhanbarthol (AH10).
- Galluogi'r grŵp Diogelu Corfforaethol i barhau i ganoli ar gyflwyno Cynllun Gwaith Diogelu Corfforaethol 2019/20 a gosod mecanweithiau priodol i fonitro cydymffurfio â'r polisi (AH11).
- Adolygu a chyfoesi Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru (AH11).
- Gwerthuso ac adolygu'r defnydd o dechnoleg cymorth er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd am annibyniaeth. (AH12).
- Adolygu'r modd y mae pob Cyfarwyddiaeth yn cydymffurfio â chwblhau'r e-fodiwl Diogelu (AH11).
- Gweithio gyda'n partneriaid i weithredu ein hagwedd 'Llety gyda Gofal' i gefnogi a chyfoethogi byw yn annibynnol (AH13).
- Cyfrannu at ddatblygu Strategaeth Ranbarthol ar Gam-fanteisio sydd yn cwmpasu pob agwedd o gam-fanteisio gan gynnwys Cam-fanteisio yn Rhywiol ar Blant (AH14).
- Gweithredu dashfwrdd o ddata mewn perthynas â Cham-fanteisio yn Rhywiol ar Blant (AH14).
- Gweithio gyda'n partneriaid i gyflwyno ôl troed ranbarthol gyson i reoli pryderon cynyddol (AH15).
- Adolygu ein hagwedd sicrhau ansawdd o ran gofal preswyl i safoni'r modd yr ydym yn adrodd ar lesiant, perfformiad a risg o ran dangos cydymffurfio (AH15).
- Adolygu ein hagwedd sicrhau ansawdd o ran Gwasanaeth Lleoli Oedolion a Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro (GACF) i ddangos cydymffurfio â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol 2016 (AH15).
- Cynnal rhaglen flynyddol o arolygiadau wedi eu targedu o eiddo sy'n cynnal gweithgareddau masnachol sy'n effeithio ar bobl fregus. Bydd hyn hefyd yn golygu paratoi busnesau ar gyfer y gofynion gweithdrefnau arbennig a osodir allan yn y Bil Iechyd Cyhoeddus, sicrhau cymeradwyo'r Cynllun Gwasanaeth Clefydau Trosglwyddadwy, cynnal ymyriadau yn unol â Chynllun Iechyd a Diogelwch Statudol Adran 18 a pharhau â rhaglen o hyfforddi ac ymwybyddiaeth o Gam-fanteisio Rhywiol ar Blant, Caethwasiaeth a Masnachu mewn Pobl i amddiffyn trigolion bregus (AH16).



Yn ychwanegol at y camau uchod, nodwyd nifer o ddangosyddion i ddangos ein cynnydd yn erbyn yr Amcan Lles hwn. Mae'r dangosyddion a amlinellir yn **Atodiad D** yn adlewyrchu'r ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu ar draws y Cyngor i gyflawni'r Amcan Lles a gyda'i gilydd byddant yn ein galluogi i ddangos sut yr ydym yn cyflawni ein Hamcan Lles a chyfrannu at y Nodau Lles cenedlaethol.



Cynllun Corfforaethol

Cyfarwyddwr Noddi

Rob Thomas

Pam bod hyn yn bwysig?

- Mae cyflwyno Amcanion Llesiant ein Cynllun Corfforaethol yn dibynnu ar gael trefniadau llywodraethiant cadarn ac agwedd **integredig** tuag at gynllunio at y **tymor hir**. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gyflwyno agenda uchelgeisiol o wella fel yr un sydd gennym yn y cyfnod ariannol mwyaf heriol.
- Yr ydym yn cydnabod mai **agwedd integredig a chydweithredol gan ddwyn i mewn** ein cwsmeriaid, partneriaid a staff yw'r ffordd orau i gyflwyno gwasanaethau cynaliadwy y rhoddir gwerth arnynt i ddinasyddion Bro Morgannwg am y dyfodol **tymor hir**.
- Yr ydym wedi ymrwymo i gyflwyno gwasanaethau cynaliadwy a chost-effeithiol sy'n cwrdd ag anghenion trigolion a chwsmeriaid ac yn gwneud y mwyaf o'n hadnoddau.
- Bydd gwella mwy ar ein hagwedd integredig 'un cyngor' at gynllunio yn cefnogi gwasanaethau'r cyngor i gyflwyno newid cynaliadwy yn unol â'n dyletswyddau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLICD) a chyfrannu at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cyngor Bro Morgannwg.

Beth yw ein heriau i gyflwyno ein blaenoriaethau lechyd Corfforaethol (cynllunio integredig)?

- Erys y gallu i gyflwyno lefel y newid trawsnewidiol sydd ei angen fel rhan o **Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau** a sicrhau'r adnoddau priodol i brosiectau Ail-lunio Gwasanaethau i gyrraedd y newid sydd ei angen yn her ar draws y rhan fwyaf o'r gwasanaethau. (CP1)
- Yn wyneb y galw am wasanaethau a'r angen i wneud mwy o arbedion effeithlonrwydd, mae mwy o ganolbwyntio ar nodi cyfleoedd i **gynhyrchu incwm**, ac y mae hyn yn dal yn her. Mae angen hefyd sicrhau ein bod yn datblygu agwedd fwy strategol a masnachol at **reoli contractau** a rheoli contractwyr a chyflenwyr yn fwy effeithiol er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynhyrchu mwy o incwm a'r arbedion posib allai ddod yn sgil hyn. (CP1/CP10)
- Mae angen gweithio gyda gwasanaethau i nodi **arbedion caffael (gwariant trydydd parti)**, yn unol â'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. (CP1)
- Mae angen parhau i adolygu'r defnydd o'n **hasedau** a cheisio cyfleoedd i'w defnyddio yn fwy effeithlon a lleihau swm y llety yr ydym yn defnyddio, gan geisio ffyrdd newydd o ddefnyddio ein hasedau eiddo i helpu gyda'r strategaeth cynhyrchu incwm. (CP1)
- Mae'r gofyniad cyson i gael gwell **effeithlonrwydd gwasanaeth ac arbedion cyllidebol** ar gyfer 2019/20 yn her i holl wasanaethau'r cyngor o gofio'r gostyngiad mewn cyllidebau. Ar draws nifer o feysydd gwasanaeth, mae hyn yn parhau i gyfeirio cyllid ymaith oddi wrth ddatblygu'r gwasanaeth ac yn gwaethygu problemau yn ymwneud â gallu. Rhaid sicrhau nad yw'r pwysau ychwanegol ar staff yn cael effaith negyddol ar gadw, presenoldeb ac ysbryd y staff. (CP1)
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i **wella mynediad at wasanaethau** a gwybodaeth gan ddefnyddio agwedd sy'n canoli ar y digidol sydd yn cwrdd orau ag anghenion ein cwsmeriaid ac yn eu cefnogi heb greu rhaniad digidol. (CP1)

Beth yw ein heriau i gyflwyno ein blaenoriaethau lechyd Corfforaethol (cynllunio integredig)?

- Erys yr angen i **ddatblygu mwy ar allu mewn cymunedau** i gyflwyno gwasanaethau yn lleol wrth i ni fwrw ymlaen ag agenda Ail-lunio'r Cyngor. (CP1)
- Mae cryn her o ran cadw'r un lefel o ymwneud ag undebau llafur a gweithwyr er mwyn cynnal y momentwm cadarnhaol a gawsom hyd yma yn dilyn lansio **Siarter y Staff**. Yn ystod 2019/20, bydd angen i ni barhau i ymwneud a gweithwyr ac undebau llafur, iddynt ddeall a bod yn rhan o brosesau newid a chyfrannu at gyflwyno agenda trawsnewid y Cyngor. (CP1)
- Mae angen parhau i ymchwilio a **gwneud y mwyaf o gyfleoedd cydweithio** o ran gwasanaethau a rennir ac a fydd o les i'r Cyngor. (CP1)
- Y gallu a'r medr i gwrdd â'r galw cynyddol am **Wasanaethau Cymdeithasol** er mwyn sicrhau y gellir ateb anghenion. Mae newidiadau demograffig yn cael effaith sylweddol, gan fod nifer cynyddol o Blant sy'n Derbyn Gofal, sydd yn rhoi pwysau ar gyllidebau. Yn amlach hefyd, mae Plant sy'n Derbyn Gofal hefyd ag anghenion cynyddol gymhleth, ac yn sgil hyn, mae arnynt angen lleoliadau sy'n fwyfwy costus. (CP1)
- Mae twf mewn cyfeirio at Fenter Gydweithredol Mabwysiadu'r Fro (**Menter Gydweithredol Mabwysiadu y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd FCC**) yn cael effaith ar y pedwar awdurdod sy'n cydweithredu. Mae heriau hefyd o ran recriwtio mabwysiadwyr addas ac asesu darparfabwysiadwyr yn amserol a hyn yn methu cadw i fyny â'r galw am nifer y plant sydd angen eu mabwysiadu. (CP1)
- Mae cyrraedd y **£600k o arbedion** sydd eu hangen am 2019/20 sy'n gysylltiedig â thrawsnewid y gwasanaeth i fodel Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth yn her, o ystyried y cyllidebau sy'n crebachu. (CP1)
- Mae angen bwrw ymlaen i sefydlu **Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol** am arlwyio yn ystod 2019. Mae angen i dîm y prosiect wneud cryn dipyn o waith er mwyn sicrhau bod strwythur y cwmni, ei lywodraethiant a'i weithredu yn cael eu sefydlu'n briodol. (CP1)
- Bydd gan y bwriad i gyflwyno meddalwedd rheoli achosion a gweithredu **Porthol Cyfreithiol** mewn cyswllt â'r Llysoedd yn ystod 2019/20 oblygiadau adnoddau sylweddol i'r Gwasanaethau Cyfreithiol o ran newid systemau a gweithdrefnau mewnol i gwrdd â gofynion y Llysoedd. (CP1)
- Bydd gan ofynion y **Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)** yn cael effaith sylweddol ar ysgolion TGCh Addysg dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Angen gweithio gydag ysgolion i ddatblygu strategaethau priodol a'r modd i'w galluogi i gwrdd yn effeithiol â'r gofynion hynny. (CP1/CP2)
- Her arall fydd yn parhau yw cefnogi a datblygu staff gyda'r gyfres iawn o sgiliau i ymateb yn effeithiol i'r ffyrdd newydd o weithio sy'n gysylltiedig â'r **Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Bil Tai, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a Deddf yr Iaith Gymraeg**. I ymateb i'n gofynion deddfwriaethol, mae angen newid y modd mae timau yn gweithio ac yn rhedeg er mwyn bod yn fwy hyblyg yn eu rolau mewn ymateb i'r dirwedd polisi sy'n newid. Yn y tymor hir mae angen adeiladu gwytnwch at y dyfodol, gyda chymorth mentrau mewnol ac allanol gan gynnwys y Fframwaith Rheoli Medrusrwydd, Fframwaith Medrusrwydd Craidd Gweithwyr a'r cynllun Rheoli Doniau a Chynllunio Olyniaeth. (CP2)
- Mae sicrhau **cynaliadwyedd gwasanaethau** trwy adeiladu gwytnwch mewn timau yn parhau i fod yn faes lle dylid parhau i ddatblygu. Erys hyn yn her mewn hinsawdd lle mae mwy o alw am wasanaethau ac yn enwedig lle mae dibyniaeth ar niferoedd bychain o staff a/neu rolau arbenigol. (CP2)
- Mae angen parhau i ganolbwyntio ar reoli **absenoldeb salwch** yn unol â pholisi corfforaethol ar draws holl wasanaethau'r cyngor. (CP2)
- Mae angen cryfhau **cynllunio olyniaeth** ar draws holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn cynyddu gwytnwch yn unol ag agenda Ail-lunio'r Cyngor a'n blaenoriaethau Llesiant cenedlaethol. (CP2)

Beth yw ein heriau i gyflwyno ein blaenoriaethau lechyd Corfforaethol (cynllunio integredig)?

- Sicrhau gwytnwch priodol i gwrdd â her bygythiadau **Adolygiadau Barnwrol** lle mae llawer o gyfreithia gan hawlwr sy'n ceisio herio penderfyniadau'r Cyngor, sydd yn arwain at fwy o alw am wasanaeth cyfreithiol. (CP2)
- Bydd cefnogi'r anghenion datblygu sy'n gysylltiedig â **strategaeth Ddigidol** y Cyngor yn gyfle ac yn her, o gofio nad ydym eto wedi pennu'n llawn ofynion ein gweithlu digidol. (CP2)
- Canlyniad ymwybyddiaeth gynyddol o faterion **GDPR** yw bod mwy o alw am gefnogaeth. Mae'r uned Rhyddid Gwybodaeth (RhG) yn cael mwy a mwy o geisiadau am gyngor ar faterion Diogelu Data. Felly, mae gallu cwrdd â'r galw hwn yn ddigonol yn parhau yn her. (CP2)
- Mae angen i nifer o feysydd gwasanaeth ymdrin â'r heriau cysylltiedig â gweithlu sy'n heneiddio; bydd angen cael uwch-aelodau o staff newydd gyda sgiliau i gwrdd ag anghenion y busnes at y dyfodol. Yn y tymor hir rhaid adeiladu gwytnwch at y dyfodol trwy fentrau cynllunio olyniaeth. (CP2)
- Bydd cyflwyno canlyniadau gwirioneddol i ddinasyddion sy'n parhau i ddangos **gwerth am arian** yn her mewn hinsawdd ariannol gynyddol anodd. (CP3)
- Y gallu i gwrdd â gofynion deddfwriaethol newydd gan gyfeirio'n arbennig at **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Bil Llywodraeth Leol** a'r heriau y mae'r rhain yn eu golygu i gyflwyno gwasanaethau ar gyllidebau sy'n lleihau. (CP4)
- Y gallu i gyflwyno **Cynllun Llesiant Bro Morgannwg** ar y cyd â'n partneriaid BGC ar adeg pan fod pob sefydliad eu hunain yn wynebu pwysau. (CP4)
- Ar waethaf yr amgylchedd heriol y mae'r Cyngor yn parhau i weithredu ynddo, mae wedi dal ati i gyflawni agenda uchelgeisiol o wella gyda'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol trigolion. Bydd datblygu a chyflwyno **Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2020-2025** fydd yn cynnal yr uchelgaïs hon ar gyfer trigolion y Fro yn dod yn gynyddol heriol o ystyried bod llymder yn parhau a'r angen i wneud arbedion effeithlonrwydd a chyllidebol ar adeg pan fo'r galw ar draws y rhan fwyaf o wasanaethau'r Cyngor yn cynyddu. (CP1,CP4,CP6)
- Tra bod cynnydd yn cael ei wneud yn gorfforaethol gyda'r ffordd yr ydym yn rheoli, monitro a dysgu o **gwynion**, mae mwy o waith i'w wneud i sicrhau ein bod yn cwrdd â'n hamserlenni targed wrth drin cwynion. Hefyd, rhaid i ni fynd i'r afael â phroblemau yn gynt i'w hatal rhag mwyn ymlaen i ail gam y broses. O edrych ymlaen, a chan wynebu'r tebygolrwydd y bydd adnoddau yn gyfyngedig a mwy o alw am wasanaethau'r cyngor, mae'n debyg mai cynyddu wnaiff nifer y cwynion a bydd angen i ni fynd ati yn fwy gweithredol i ymateb. (CP5)
- Gwellu a **chynnal perfformiad da** ar draws holl wasanaethau'r Cyngor ac ar yr un pryd reoli disgwyliadau cwsmeriaid mewn hinsawdd lle mae adnoddau'n lleihau. (CP6)
- Mae angen parhau i ganoli ar weithredu ein **cynigion rheoleiddio** ar gyfer gwella (a sail hyn fydd gwybodaeth o adolygiadau lleol a chenedlaethol a wnaed gan ein rheoleiddwyr, Swyddfa Archwilio Cymru) fel y'u nodwyd yn Olrheiniwr Insight y Cyngor er bod yr adnoddau'n lleihau. (CP6)
- Gweithio gyda'n gwasanaethau i ddatblygu **agwedd o ddenu partneriaid busnes** i Gynllunio Gwellu a datblygu gwasanaethau sy'n gyson â blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a'r nodau llesiant cenedlaethol. (CP6)
- Y gallu a'r medr i gwrdd yn llawn â'n gofynion fel rhan o **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Bil Llywodraeth Leol (Cymru)** yng nghyswllt y swyddogaethau Gweithredol ac anweithredol. Hefyd, o ganlyniad i'r Bil Llywodraeth Leol, fe all fod gofyniad i sicrhau bod mwy o gyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu gwe-ddarlledu. Her allweddol fydd sicrhau bod y dechnoleg TGCh a ddefnyddir yn 'addas at y diben' i'n galluogi i gwrdd ag unrhyw ofynion deddfwriaethol newydd. (CP7)
- Cefnogi trefniadau i gydweithio yn rhanbarthol o fewn yr adnoddau a'r gall sydd gennym ar hyn o bryd. Er bod trefniadau priodol ar gael i graffu ar berfformiad rhai gwasanaethau ar y cyd, er enghraifft y Cyd-wasanaeth Addysg, yr ydym yn cydnabod fod angen gwella cysondeb yn y modd yr ydym yn herio penderfyniadau / perfformiad. Bu hyn yn arbennig o wir yng nghyswllt craffu ar

Beth yw ein heriau i gyflwyno ein blaenoriaethau lechyd Corfforaethol (cynllunio integredig)?

- y cyd ar **Wasanaethau Rheoleiddio a Rennir**. Hyd yma, ni wnaed llawer o gynnydd wrth ddatblygu a chytuno ar agwedd o graffu ar y cyd, a rhaid bwrw ymlaen ymhellach â hyn. (CP7)
- Sicrhau bod pob adeilad sydd mewn meddiant corfforaethol yn parhau i **gydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol** (gyda data cydymffurfio cyfoes yn dystiolaeth) mewn hinsawdd arianno cynyddol anodd. (CP11)
 - Sicrhau bod ein **darparwyr Trydydd Parti (comisiynwyd)** ac ysgolion yn rheoli materion yn ymwneud â chydymffurfio ym materion adeiladau, fel y gall y Cyngor fod yn fodlon bod ei risgiau cydymffurfio ym materion adeiladau corfforaethol yn cael eu rheoli'n effeithiol. (CP11)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at ein blaenoriaethau lechyd Corfforaethol?

- Bwrw ymlaen â chynigion trwy'r Bwrdd Rhaglen Ail-lunio, ceisio caniatâd y Cabinet i achosion busnes yn ôl y gofyn a gweithredu prosiectau a gymeradwywyd lle bo hynny'n briodol. (CP1)
- Datblygu a chyflwyno prosiectau cyfnod 4 ar gyfer y rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau a cheisio caniatâd y Cabinet i achosion busnes yn ôl y gofyn. (CP1)
- Parhau i fwrw ymlaen â gwaith ar Y Fro Ddigidol, Gwariant 3ydd Parti, Cynhyrchu Incwm a Chyfleoedd Masnachol ar gyfer y rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau a cheisio caniatâd y Cabinet i achosion busnes yn ôl y gofyn. (CP1)
- Parhau i ddatblygu a chyfrannu at ffrydiau gwaith prosiectau corfforaethol, gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned, y Trydydd Sector a'r Sector Wirfoddol, Rheoli Galw ac Effeithiolrwydd Gwario. (CP1)
- Datblygu cynigion am gyfnodau 5 a 6 ar gyfer y rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. (CP1)
- Ymchwilio i gyfleoedd cydweithio sy'n ymddangos ar gyfer gwasanaethau priodol y Cyngor. (CP1)
- Ymchwilio i fwy o gyfleoedd am Drosgrwyddo Asedau Cymunedol a'u hyrwyddo, gyda model TAC diwygiedig yn sail iddo. (CP1)
- Fel rhan o Gyfnod 4, parhau i gyflwyno agenda ail-lunio Cyngor a phrosiectau cysylltiedig yn Rhaglen Gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol. (CP1)
- Gweithio tuag at gyrraedd targed arbedion angenrheidiol y Rheolwr-Gyfarwyddwr a'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau o £821k yn 2019/20. (CP1)
- Parhau i adolygu llety sy'n swyddfeydd a heb fod yn swyddfeydd, rheoli cyfleusterau ac adeiladau corfforaethol fel rhan o gam nesaf prosiect SPACE i wella effeithlonrwydd yn y modd mae gwasanaethau yn rhedeg a chyflwyno arbedion ariannol. (CP1)
- Adolygu caffael corfforaethol (gwariant trydydd parti) i nodi arbedion i holl wasanaethau'r cyngor, yn unol â'r Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. (CP1)
- Cyflwyno newid sefydliadol fel rhan o'r Strategaeth Ail-lunio Gwasanaethau ac ymdrin ag unrhyw oblygiadau AD a all godi yn sgil hynny. (CP1)
- Rhoi cefnogaeth i reolwyr yng nghyswllt prosiectau ail-lunio penodol trwy gydol 2019/20 gyda phwyslais ar reoli newid. (CP1)
- Adolygu ein hagwedd ar ymwneud staff a gweithredu agwedd fwy holistig, ar sail deilliannau arolwg staff 2018 gan gynnwys cynlluniau gweithredu ar lefel cyfarwyddiaeth a hyrwyddwyr ymwneud i gefnogi rheolwyr i lunio gwasanaethau yn unol â'n hymrwymadau yn Siarter Staff a'r strategaeth Ail-lunio. (CP1)
- Lansio'r Fframwaith Medrusrwydd Rheoli i gefnogi datblygu nodweddion arwain a rheoli yn unol â'r rhaglen ail-lunio gwasanaethau. (CP1)
- Darparu cefnogaeth gyfreithiol i ofalu cadw at amserlen Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor a'r Cynlluniau Prosiect cysylltiedig. (CP1)
- Gweithio with gwasanaethau ar draws y cyngor i wneud y mwyaf o gyfleoedd cynhyrchu incwm yn unol â Strategaeth Cynhyrchu Incwm y Cyngor gan gynnwys: (CP1)
 - Nodi ac adolygu polisiau codi tâl mewn Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer ffioedd anstatudol a chyfleoedd cynhyrchu incwm. (CP1)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at ein blaenoriaethau iechyd Corfforaethol?

- Adolygu'r ffioedd a'r taliadau cyfredol am Wasanaethau Cymdogaeth a Chludiant gan ganoli ar symud tuag at adfer cost gwasanaethau. (CP1)
 - Gweithredu'r polisi adennill cost llawn defnyddiwr unigol ar gyfer clybiau /sefydliadau nad ydynt yn ymgymryd â chyfrifoldebau trosglwyddo. (CP1)
 - Gweithredu tîm gorfodi mewnol newydd o fewn y Gwasanaethau Cymdogaeth a Chludiant sydd yn hunan-gyllido. (CP1)
 - Ehangu gweithrediadau gwastraff masnachol i gynhyrchu incwm. (CP1)
 - Gweithredu'r model gwasanaeth y cytunwyd arno i gyflwyno gwasanaethau arlwyyo. (CP1)
 - Edrych i mewn ymhellach i ddewisiadau i gynhyrchu mwy o incwm yn y gwasanaeth Adfywio a Chynllunio. (CP1)
 - Nodi a gweithredu cyfleoedd cynhyrchu incwm mewn gwasanaethau cymdeithasol megis gweithredu codi am rai agweddau o ofal cymdeithasol. (CP1)
- Parhau i ymchwilio i gyfleoedd am weithio ar y cyd yn lleol a rhanbarthol, a hyrwyddo hynny, er mwyn cyflwyno gwell gwasanaethau i gwsmeriaid a chyflwyno arbedion gan gynnwys:
 - Cynnal gwaith paratoi i drosi i'r model gwasanaeth newydd am wasanaethau ADY yn unol â Chynllun Gweithredu Rhanbarthol ADY a Thribiwnlys Addysg (Cymru). (CP1)
 - Nodi a bwrw ymlaen gyda meysydd cyflwyno a darparu gwasanaeth posib y gellir eu cyflwyno yn rhanbarthol. (CP1)
 - Adolygu ansawdd ein hasedau presennol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn 'addas at y diben' yn awr ac yn y dyfodol, sydd yn cynnwys nodi dewisiadau am y ffordd ymlaen o ran cyflwyno gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig. (CP1)
 - Datblygu a gweithredu gwasanaeth Meddygon Cofrestredig integredig yn Ysbyty Llandochau gyda gwasanaeth profedigaeth yn Ysbyty'r Brifysgol Llandochau. (CP1)
 - Ymestyn ein gwaith gyda'n partneriaid yn y sector wirfoddol i gyfoethogi mwy ar ddarpariaeth AAWY i ddisgyblion y Fro. (CP1)
 - Datblygu mwy ar ddarpariaeth i ymdrin â'r galw cynyddol am leoliadau i ddisgyblion ag Anhwylderau Sbectwm Awstisiaeth (ASA) ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol cymhleth yn y Fro. (CP1)
 - Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i wneud y mwyaf o gyfleoedd am ffynonellau grantiau newydd wedi BREXIT. (CP1)
 - Gweithio gyda Choleg Caerdydd a'r Fro i ddwyn ymlaen safle newydd i'r coleg. (CP1)
 - Ymchwilio i gyfleoedd am fwy o weithio ar y cyd a rhannu adnoddau ar draws CAVCLP ac ail-lunio Gwasanaeth Dysgu ACY y Fro mewn ymateb i lai o gyllid gan Lywodraeth Cymru. (CP1)
 - Parhau i nodi cyfleoedd i weithio ar y cyd ar draws y rhanbarth i ddatblygu gallu mewn gwasanaethau arbenigol / swyddi hanfodol er mwyn cynyddu gwytnwch y gwasanaeth ac ardaloedd i gynnal lefelau priodol o gyflwyno gwasanaethau at y tymor hir. (CP1)
 - Parhau i ddatblygu mwy ar allu cymunedau i gyflwyno gwasanaethau wrth i ni fwrw ymlaen ag agenda ail-lunio Cyngor gan ganolbwyntio yn arbennig ar y Celfyddydau a Diwylliant. (CP1)
 - Dwyn i mewn y gwasanaethau terfynol o Gaerdydd am y Gwasanaethau Rheolaethol a Rennir i'r Ganolfan Gyswllt, gan integreiddio mwy ar wasanaethau a sicrhau y bydd gwasanaeth llawn ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg. (CP1)
 - Cyfrannu tuag at ymchwilio i gyfleoedd am sefydlu Hwb Llesiant yng Nghanolfan Hamdden Penarth. (CP1)
 - Gweithredu'r Gwasanaeth Maethu Therapiwtig i Blant sy'n Derbyn Gofal a'u gofalwyr. (CP1)
 - Cyflwyno mwy o effeithlonrwydd mewn gwasanaethau ac arbedion cyllidebol ar draws holl wasanaethau'r Cyngor i gefnogi agenda Ail-lunio'r Cyngor gan gynnwys:
 - Parhau i werthuso ac adrodd ar amrywiaeth o fodelau gweithredu posib at y dyfodol am y gwasanaeth TGCh fel rhan o'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau (cyfnod 2) er mwyn cyflwyno arbedion yn ôl y targed. (CP1)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at ein blaenoriaethau lechyd Corfforaethol?

- Ailstrwythuro Gwasanaethau Adeiladu a datblygu cynllun busnes. (CP1)
- Parhau i drawsnewid busnesau yn y gwasanaethau Cymdogaeth a Chludiant trwy fentrau ail-lunio i gyflwyno'r arbedion sydd eu hangen. (CP1)
- Trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gyfleusterau chwaraeon awyr agored un-defnydd i glybiau / mudiadau. (CP1)
- Cynnal y trafodaethau estyn 5 mlynedd am y contract rheoli hamdden i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaeth gwerthfawr yn y dyfodol. (CP1)
- Gweithio tuag at weithredu o un depo yn yr Alps gyda mannau parcio ategol gerllaw, gan gynnwys rhesymoli Depos Sifig ac asedau eraill nad oes mo'u hangen. (CP1)
- Cynnal adolygiad o bolisi cludiant Ysgolion / Colegau ôl-16 i gyflwyno arbedion effeithlonrwydd. (CP1)
- Adolygu dewisiadau i ddwyn safleoedd Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref yn ôl yn fewnol yn ystod 2019 neu 2020. (CP1)
- Ymchwilio i'r dewisiadau am Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref newydd yng Ngorllewin y Fro unwaith i'r brydles ar y safle presennol ddod i ben (Rhagfyr 2019). (CP1)
- Caffael a gweithredu system Post Hybrid i gyflwyno effeithiolrwydd yn y gwasanaethau. (CP1)
- Gweithio gyda grŵp Gorchwyl a Gorffen Pecynnau Gofal i weithredu cymhwysiad dashfwrdd newydd i fonitro pecynnau gofal. (CP1)
- Gweithio gydag ysgolion i adolygu trefniadau caffael fel rhan o gyfnod 4 y rhaglen ail-lunio gwasanaethau. (CP1)
- Cefnogi gweithredu Strategaeth Ddigidol y Cyngor (cyfnod 3 y rhaglen ail-lunio gwasanaethau) trwy'r prosiectau allweddol canlynol.
 - Cyflwyno Microsoft Office 365 i feysydd gwasanaeth priodol er mwyn gwneud y gwasanaethau'n effeithiol, mynediad rhwydd o bell at ddata a hwyluso defnydd effeithiol o swyddfeydd. (CP1)
 - Cwblhau symud Rhwydwaith Ardal Eang (WAN) y Cyngor i WAN Cydgrynhoi Band Llydan y Sector Cyhoeddus (PSBA) ac uwchraddio lled band a gwytnwch y rhyngwrdd i holl ysgolion y Fro fel rhan o brosiect 'Dysgu yng Nghymru Ddigidol 2' Llywodraeth Cymru (LiDW 2). (CP1)
 - Integreiddio mwy ar gymwysiadau (gan gynnwys gwefan y Cyngor) gyda systemau swyddfa-gefn a chwmwl eraill i fod yn effeithiol a chael gwelliannau ar sail gofynion busnes. (CP1)
 - Gweithio gyda chydweithwyr ar draws y Cyngor i gydymffurfio â safonau diogelwch perthnasol, gan gynnwys GDPR, PCI a PSN yn unol â rhaglen 'Y Fro Ddigidol'. (CP1)
 - Parhau i adolygu systemau a meddalwedd TGCh ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben yn unol â rhaglen 'Y Fro Ddigidol'. (CP1)
 - Gorffen gwerthuso cyfrifiadura a storio seiliedig ar y cwmwl fel ateb a allai fod yn gost-effeithiol i'r Cyngor, i gynyddu effeithlonrwydd yn unol â'r Strategaeth Ddigidol. (CP1)
 - Gweithredu E-ddinesydd yn llawn (gan gynnwys fersiwn Gymraeg) fel rhan o'r strategaeth Ddigidol, gan alluogi trigolion a busnesau i dderbyn a thalu biliau cyngor yn electronig. (CP1)
 - Gwneud y mwyaf o gyfleoedd am weithio ystwyth ar draws y Cyngor yn unol â'r rhaglen ail-lunio. (CP1)
 - Ymchwilio a nodi'r defnydd o atebion meddalwedd priodol ar draws y Gwasanaethau Tai ac Adeiladu. (CP1)
 - Gwella ansawdd ac amrywiaeth gwybodaeth am dai ar y wefan a chynyddu nifer y gwasanaethau y gall tenantiaid eu cyrchu ar-lein gan ganoli'n arbennig ar hunanwasanaeth rhentu tai a hunanwasanaeth trwsio tai. (CP1)
 - Cwblhau adolygiad strategol o'r gwasanaeth TCC. (CP1)
 - Datblygu Strategaeth Trawsnewid Digidol i'r Gwasanaethau Tai ac Adeiladu. (CP1)
 - Parhau i symud ymlaen a gweithio symudol ac ystwyth ar draws y Gwasanaethau Cymdogaeth a Chludiant yn unol â rhaglen Y Fro Ddigidol.

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at ein blaenoriaethau lechyd Corfforaethol?

- Adolygu'r defnydd presennol o dechnoleg ar draws y timau Gwasanaethau Cymdogaeth a Chludiant a gofalu bod y defnydd mwyaf yn cael ei wneud â rhaglen Y Fro Ddigidol. (CP1)
- Gweithredu system cyswllt cwsmeriaid i C1V i gefnogi amcanion Gwasanaeth Digidol i Gwsmeriaid Strategaeth Ddigidol y Cyngor. (CP1)
- Cyfrannu at gyflwyno Strategaeth Ddigidol y Cyngor, 'Y Fro Ddigidol' gan ganoli'n arbennig ar wasanaethau o gwmpas y dinesydd er mwyn sicrhau yr atebir eu hanghenion a bod y gwasanaethau'n cael eu cyflwyno yn y ffordd fwyaf effeithlon, h.y., symud sianel a blaenoriaethau gwaith cysylltiedig â gweithwyr digidol. (CP1)
- Ymchwilio a hyrwyddo i'r defnydd o Awtomeiddio Prosesau Robotaidd a deallusrwydd Artiffisial etc. mewn perthynas â chyflwyno gwasanaethau digidol, cyfrannu at gynnal lefelau gwasanaeth a gwneud arbedion. (CP1)
- Parhau i ddatblygu cyfleoedd am arferion gweithio symudol technegol arloesol seiliedig ar TGCh ar draws y cyngor gan gynnwys gweithio o bell ac allan o'r swyddfeydd, ar sail cyflwyno Office 365 yn unol â rhaglen Y Fro Ddigidol. (CP1)
- Datblygu mwy ar wasanaethau seiliedig ar y cwmwl/y we i ysgolion i gefnogi adnoddau dysgu yn unol â'r agenda dysgu digidol a Safon Addysg Ddigidol Llywodraeth Cymru. (CP1)
- Parhau i adeiladu gwytnwch yn seilwaith rheoli gwybodaeth y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau ac ymestyn y gallu i gael gwasanaethau ychwanegol i ysgolion. (CP1)
- Adolygu effeithiolrwydd Modiwl Capita ONE CSS i olrhain a rheoli data i grwpiau a dargedir gan gynnwys disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol a NEET. (CP1)
- Adolygu gofynion y gwasanaeth a pharhau â rhaglen o uwchraddio gofynion Gweinyddion/Storio yn y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau i wneud y mwyaf o'n buddsoddiad mewn TGCh. (CP1)
- Cyflwyno ein blaenoriaethau allweddol o ran datblygu'r gweithlu am y flwyddyn i ddod a fydd yn cynnwys:
 - Gweithredu rhaglen o hyfforddi i ddatblygu nodweddion arwain a rheoli fel rhan o'r Fframwaith Medrusrwydd Rheoli. (CP2)
 - Parhau i adolygu a gwella cynllun Cynllunio Olyniaeth a Rheoli Doniau y Cyngor. (CP2)
 - Datblygu mwy ar arferion cynllunio olyniaeth a rheoli doniau a'u gweithredu ar draws pob maes gwasanaeth er mwyn adeiladu gwytnwch i gwrdd â heriau trawsnewid gwasanaethau. (CP2)
 - Parhau i ganoli ar gryfhau trefniadau rheoli a chefnogi perfformiad yng nghyswllt rheoli presenoldeb ar draws pob maes gwasanaeth. (CP2)
 - Gwneud y mwyaf o fanteision y Gwasanaeth Gweithwyr AD integredig gan gynnwys cyfleusterau hunanwasanaeth AD Oracle, dashfwrdd rheolwyr a phrosesau AD llyfnach. (CP2)
 - Datblygu mwy a gwreiddio sgiliau gwasanaeth pen-blaen (ac amlddisgyblaethol) yn y tîm Gwasanaeth Gweithwyr AD a gwneud mwy o ddefnydd o dechnolegau newydd, e.e. recriwtio digidol a DBS i wella cyflymder a mynediad at gyngor a gwybodaeth i'n cwsmeriaid. (CP2)
 - Lansio'r Fframweithiau Medrusrwydd Rheolwyr a Gweithwyr a Chynllunio Olyniaeth a Rheoli Doniau i helpu i adnabod ac ymdrin â bylchau sgiliau ar draws y Cyngor. (CP2)
 - Cefnogi'r anghenion datblygu sy'n gysylltiedig â Strategaeth Ddigidol y Cyngor. (CP2)
 - Canolbwyntio ar ddileu gwahaniaeth rhwng galwedigaethau trwy symbylu amrywio dewisiadau galwedigaeth gan ddynion a menywod yn holl rolau'r cyngor (ac ar bob lefel) a hyrwyddo delweddau cadarnhaol yn y Cyngor i'r ddau ryw mewn rolau heb fod yn rhai traddodiadol.
 - Mireinio'r modd y mae dysgu'n cael ei gyflwyno yn gorfforaethol trwy ddatblygu, gweithredu a chefnogi agwedd hunan-gyfeiriedig i gwrdd â heriau hyfforddi a datblygu mewn gweithle deinamig (fel sydd wedi'i asio â'r Fframweithiau Medrusrwydd Rheolwyr a Gweithwyr a Chynllunio Olyniaeth a Rheoli Doniau). (CP2)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at ein blaenoriaethau lechyd Corfforaethol?

- Adolygu polisïau cyflogaeth allweddol i helpu i ymdrin yn fwy effeithiol â materion galluedd. (CP2)
- Sicrhau y parheir i gefnogi gweithwyr i ddatblygu'r set eang o sgiliau sydd eu hangen i gynnal ffyrdd newydd do weithio, trwy fentrau lleol a rhanbarthol (e.e. Fframweithiau Medrusrwydd Rheolwyr a Gweithwyr a Chynllunio Olyniaeth a Rheoli Doniau.) (CP2)
- Parhau i adnabod cyfleoedd i gydweithio ar draws y rhanbarth i ddatblygu galluedd mewn gwasanaethau arbenigol / swyddi hanfodol er mwyn cynyddu gwytnwch y gwasanaeth mewn meysydd gwasanaeth allweddol a chynnal lefelau priodol o gyflwyno gwasanaethau at y tymor hir. (CP2)
- Cynyddu gallu trwy weithio ar lefel ranbarthol i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'n hymrwymadau yn y CSGA 2017-20 a gofynion Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). (CP2)
- Adolygu'r oblygiadau i'r gweithlu a nodi ffordd ymlaen i barhau'r gwasanaeth EMAS yng ngoleuni'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi tynnu arian yn ôl o'r grant Gwella Addysg. (CP2)
- Cyflwyno cynllun prentisiaeth a chael cynllun peilot o raglen arweinyddiaeth gwaith cymdeithasol unswydd yn yr Is-adran Gwasanaethau Oedolion. (CP2)
- Gweithio gyda'r Ganolfan Gyswilt Cwsmeriaid i neilltuo Cynrychiolwyr Gwasanaeth Cwsmeriaid i gyflwyno swyddogaethau Gwasanaethau Oedolion. (CP2, AH8)
- Gweithredu un strwythur rheoli integredig yng nghyswilt y Gwasanaeth Gofal Tymor Hir a'r Tîm Nyrs Aseswyr. (CP2, AH9)
- Adolygu rôl nyrsys a gwasanaethau cymdeithasol yn y timau Gofal Tymor Hir a Nyrs Aseswyr. (CP2, AH9)
- Adolygu tâl Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy i wella recriwtio a chadw. (CP2)
- Gwella gallu Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy trwy gyrchu hyfforddiant unswydd. (CP2)
- Cyflwyno cynllun prentisiaeth, bwrw ymlaen â chynllunio olyniaeth yng nghyswilt yr haenau Rheolwyr Arfer trwy'r rhaglen ddatblygu Rheolwyr Timau a gweithio gyda chydweithwyr corfforaethol i gyflwyno recriwtio wedi'i dargedu yng nghyswilt swyddi 'anodd recriwtio'/hanfodol i fusnes yn yr Is-adran Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. (CP2)
- Datblygu sgiliau staff penodol yn y timau Gwasanaethau Democrataidd i alluogi rhyngwyneb a gwytnwch llawn ar draws swyddogaethau'r Cabinet, Craffu a Phwyllgorau. (CP2)
- Adolygu a gweithredu ailstrwythur mewn Gwasanaethau Democrataidd (ynglŷn â swyddogaethau Gweithredol ac Anweithredol) (CP2).
- Adeiladu gwytnwch yn y Gwasanaeth Cyllid a TGCh trwy ganolbwyntio ar ddatblygu trefniadau cynllunio olyniaeth, adeiladu ar drefniadau cydweithio presennol, gwella sgiliau a datblygu hyblygrwydd mewn sgiliau ar draws yr holl dimau ac annog manteisio ar gyfleoedd hunan-ddatblygu. (CP2)
- Annog ymwneud y staff mewn mentrau corfforaethol ar draws pob maes gwasanaeth i ddatblygu mwy ar ddiwylliant sydd yn cefnogi'r rhaglen newid ehangach (y rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau) a hunaniaeth gorfforaethol. (CP2)
- Gweithio tuag at recriwtio graddedigion, hyfforddeion a phrentisiaid ar draws yr isadran Gwasanaethau Tai ac Adeiladau ac ymchwilio i botensial cydweithredu gyda Choleg Caerdydd a'r Fro i ddatblygu rhaglen hyfforddi prentisiaid ar y cyd ar gyfer adeiladu. (CP2)
- Adolygu'r gallu a'r adnoddau yn y Tîm Buddsoddi Cymunedol mewn Gwasanaethau Tai ac Adeiladau i gyfrannu tuag at ddatblygu cymunedau cynaliadwy a chydlynus. (CP2)
- Parhau i drosglwyddo arbenigedd a sgiliau mewn meysydd megis ymgynghori / ymwneud, adrodd am berfformiad a monitro cydraddoldeb i wasanaethau i adeiladu galluedd a sicrhau cysondeb agwedd ar draws y Cyngor. (CP2)
- Parhau i adeiladu gwytnwch mewn timau Perfformiad a Datblygu trwy ganolbwyntio ar gynyddu sgiliau a chynyddu hyblygrwydd mewn setiau sgiliau ac annog hunanddatblygiad fel

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at ein blaenoriaethau lechyd Corfforaethol?

sydd wedi eu hasio â'r Fframwaith Medrusrwydd Craidd Gweithwyr a'r Fframwaith Medrusrwydd Rheolwyr.

- Parhau i wella cynllunio olyniaeth yn y gwasanaeth trwy gefnogi cyfleoedd i hyfforddeion a phrentisiaethau er mwyn sicrhau bod cronfa o staff gyda'r cymwysterau a'r sgiliau priodol dros y blynyddoedd i ddod.
- Parhau i adolygu a gweithredu ffyrdd effeithiol o weithio mewn Perfformiad a Datblygu fel sydd wedi'u hasio gydag anghenion busnes (gan gynnwys rolau'r swyddi fydd eu hangen) a sicrhau fod modd rheoli'r beichiau gwaith. (CP2)
- Sicrhau adnoddau digonol i brosiectau Ail-lunio Gwasanaethau er mwyn cael newid trawsnewidiol. (CP2)
- Sicrhau'r gwytnwch a'r setiau sgiliau priodol ymysg y staff yn y Gwasanaethau Cyfreithiol i gwrdd â'r heriau a wynebwr gan fygythiad Adolygiad Barnwrol. (CP2)
- Datblygu trefniadau cynllunio olyniaeth yn y Gwasanaethau Cyfreithiol i ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â dibynnu ar niferoedd bychain o staff allweddol a throsglwyddo arbenigedd mewn meysydd megis addysg, gwasanaethau cymdeithasol oedolion a chaffael i gynyddu gwytnwch ar draws y tîm. (CP2)
- Canolbwyntio ar gynllunio olyniaeth i swyddi hanfodol, ymchwilio i gyfleoedd cydweithio i ddatblygu graddedigion a hyfforddeion, gweithredu strategaethau i wrthdroi proffil y gweithlu sy'n heneiddio a gweithio tuag at ymdrin â phroblemau recriwtio i'r gwasanaeth yng nghyswllt swyddi arbenigol allweddol yn y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth er mwyn cynyddu gwytnwch. (CP2)
- Adolygu trefniadau gweithio a phob trefniant tu allan i oriau yn y gwasanaeth Cymdogaeth a Thrafnidiaeth er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau a bod anghenion rhedeg y gwasanaeth a'r cyhoedd yn cael eu cwrdd yn ddigonol. (CP2)
- Parhau ti adolygu gofynion staff a hyfforddiant yn y gwasanaeth Cymdogaeth a Thrafnidiaeth ac adeiladu gwytnwch trwy roi i'r staff y sgiliau angenrheidiol i ennill cymwysterau ar gyfer swyddogaethau penodol a chynyddu cyfleoedd i wirfoddolwyr gefnogi mentrau yn y gwasanaethau. (CP2)
- Ymchwilio a gweithredu dewisiadau ar gyfer cynllunio olyniaeth mewn meysydd lle mae'n anodd recriwtio yn y Gwasanaethau Adfywio gyda phwyslais ar ddatblygu llwybrau gyrfa. (CP2)
- Parhau i wella'r Rhaglen Datblygu Rheolwyr yn y Gwasanaethau Adfywio fel bod gan reolwyr yn awr ac yn y dyfodol y sgiliau sydd eu hangen i reoli gwasanaethau'r dyfodol. (CP2)
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd gweithio rhanbarthol i wella gwytnwch a setiau sgiliau yn y Gwasanaethau Adfywio. (CP2)
- Adolygu effeithiolrwydd y strwythur newydd a gwreiddio strwythur yr Is-adran Rheoli Adnoddau a Diogelu ar ei newydd wedd, gan recriwtio'n barhaol i swyddi gwag. (CP2)
- Cyflwyno rhaglen hyfforddi i'r staff gan ganolbwyntio'n arbennig ar gwrdd â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a defnyddio WCCIS. (CP2)
- Cynnal Archwiliad o Sgiliau'r staff er mwyn cefnogi ein hagwedd at gynllunio olyniaeth a meithrin cymysgedd ehangach o sgiliau'r staff yn yr Is-adran Rheoli Adnoddau a Diogelu. (CP2)
- Gweithio gyda chydweithwyr mewn Datblygu Sefydliadol i ddatblygu mentrau i ymdrin â'r proffil heneiddio yn y gweithlu Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau gan ganolbwyntio'n arbennig ar Arlwy, Dysgu Cymunedol a Llyfrgelloedd. (CP2)
- Gweithio gyda chydweithwyr mewn Datblygu Sefydliadol i sicrhau bod gweithwyr a gwirfoddolwyr (lle bo hynny'n briodol) yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r set eang o sgiliau sydd eu hangen i gefnogi ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys gweithio rhanbarthol mewn amrywiaeth o gyd-destunau a lleoliadau gyda mentrau corfforaethol yn sail iddynt (gan gynnwys y Fframwaith Medrusrwydd Rheolwyr, y Fframwaith Medrusrwydd Craidd Gweithwyr a'r cynllun Cynllunio Olyniaeth a Rheoli Doniau).

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at ein blaenoriaethau lechyd Corfforaethol?

- Ceisio ffyrdd o ddwyn i mewn weithwyr rhan-amser a sesiynol a gwirfoddolwyr i agenda ail-lunio'r Cyngor (CP2)
- Adolygu strwythur y Gwasanaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau yng nghydestun gofynion busnes sydd yn newid yn unol â'r agenda ail-lunio. (CP2)
- Gweithio gyda'n partneriaid i gyflwyno'r pedwar Amcan Llesiant yn 'Ein Bro Ein Dyfodol', Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am 2018-23. (CP4)
- Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol yn amlinellu'r cynnydd a wnaed gan BGC Bro Morgannwg o ran cyflwyno ein Hamcanion Llesiant a'n cyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol. (CP4)
- Ymwneud â thrigolion, partneriaid a chydweithwyr yn y cyngor i ddatblygu Cynllun Corfforaethol newydd am 2020-2025. (CP5)
- Gweithredu'r Fframwaith Ymwneud Cyhoeddus a'r cynllun gweithredu sy'n ei gefnogi am 2019/20. (CP4)
- Parhau i weithio gyda gwasanaethau'r cyngor i sicrhau ein bod yn dysgu o gwynion er mwyn gwella'r ffordd yr ydym yn cyflwyno gwasanaethau. (CP5)
- Asio yn fwy agos weithgaredd cyfathrebu allanol y Cyngor gyda blaenoriaethau corfforaethol y sefydliad er mwyn helpu i'w cyflwyno, gan ganoli'n arbennig ar y Strategaeth Ddigidol a'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau. (CP5)
- Caffael a gweithredu System Rheoli Perfformiad newydd i adrodd yn well am berfformiad a rhoi mewnwelediad amserol i berfformiad y Cyngor fel sail i wneud penderfyniadau. (CP6)
- Parhau i weithio gydag aelodau etholedig a swyddogion i wella mwy ar y trefniadau adrodd am berfformiad, a hyn wedi'i asio gyda'r Cynllun Corfforaethol. (CP6)
- Datblygu a chyhoeddi Cynllun Corfforaethol newydd am 2020-2025. (CP6)
- Mireinio fformat Adroddiad Blynyddol y Cyngor i gryfhau mwy ar y modd mae llwyddiannau'r Cyngor yn cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol gan adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Mesur Llywodraeth Leol. (CP6)
- Gweithredu ein cynigion rheolaethol ar gyfer gwella fel y'u nodwyd yn Olrheiniwr Mewnwelediad y Cyngor. (CP6)
- Parhau i weithio gyda chyfarwyddiaethau gwasanaeth i ddatblygu agwedd o bartneriaeth gyda busnes i Gynllunio Gwella a datblygu gwasanaethau sy'n gyson â blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol a'r Deilliannau Llesiant cenedlaethol (CP6)
- Gweithredu argymhellion o adolygiad SAC o drefniadau Craffu (CP7).
- Adolygu yn flynyddol gyfraddau cwblhau ac effeithiolrwydd y cynllun mantoli staff '#itsaboutme'. (CP8)
- Cynnal adolygiad o'n trefniadau ar gyfer mantoli prif swyddogion. (CP8)
- Ymestyn y defnydd o iDev ar gyfer rheoli perfformiad gan ganoli'n benodol ar Fantoli Prif Swyddogion ac #itsaboutme. (CP8)
- Parhau i weithiau gyda gwasanaethau a pherchenogion risg i fireinio a gwreiddio ein hagwedd at reoli risg corfforaethol a gwasanaethau. (CP9)
- Adolygu, cyfoesi a hyrwyddo Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor i aelodau etholedig a staff y Cyngor. (CP9)
- Gweithredu cofrestr gontractau ganolog i'r Cyngor fel bod modd caffael a rheoli contractau yn effeithiol. (CP10)
- Parhau i gyflwyno caffael ac anfonebu digidol ar draws y Cyngor. (CP10)
- Adolygu ac adrodd yn erbyn targedau blynyddol fel yr amlinellir yng Nghynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2018-21. (CP11)
- Bwrw ymlaen â'r camau blaenoriaeth allweddol a nodwyd yn Adolygiad Rheoli Asedau Jones Lang LaSalle. (CP11)
- Gweithio gydag adrannau gwasanaeth i adnabod asedau sy'n tanberfformio / aneffeithiol y gellid eu gwaredu ar ôl asesu'r dewisiadau. (CP11)

Pa gamau fyddwn ni'n eu cymryd yn ystod 2019/20 i gyfrannu at ein blaenoriaethau lechyd Corfforaethol?

- Gweithio gydag adrannau sy'n perchenogi i nodi a bwrw ymlaen â'r safleoedd gwaredu allweddol. (CP11)
- Parhau i ddatblygu a gwella rheoli cydymffurfio ac yn arbennig, 'data cydymffurfio' yng nghyswllt stoc adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys cefnogi rheolwyr i ddefnyddio system rheoli asedau CIPFA (IPF) i gofnodi gwybodaeth am asedau. (CP11)
- Adolygu trefniadau cyllido i sicrhau cynaliadwyedd mewn cydymffurfio ym materion adeiladau yn y tymor hir ar draws y Cyngor. (CP11)
- Cynnal ac adrodd ar y sefyllfa fel y mae yng nghyswllt cydymffurfio ym mater adeiladau mewn perthynas ag asedau adeiladau'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau ac mewn ysgolion. (CP11)
- Treialu mecanweithiau cefnogaeth weithredol i ysgolion cynradd yng nghyswllt cydymffurfio ym mater adeiladau trwy ysgol a gyllidir. (CP11)



Yn ychwanegol at y camau uchod, nodwyd nifer o ddangosyddion i ddangos cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau lechyd Corfforaethol a chynllunio integredig. Bydd y dangosyddion lechyd Corfforaethol a amlinellwyd yn **Atodiad D** ynghyd â'n camau 'galluogi' yn ein galluogi i ddangos sut yr ydym yn cyrraedd Amcanion Llesiant ein Cynllun Corfforaethol ac yn cyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol.

○ ATODIAD A AMCANION LLESIANT

AMCAN

DISGRIFIAD o'r AMCAN

● Cymru Lewyrchus

Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

● Cymru Gadarn

Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).

● Cymru Iachach

Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

● Cymru fwy Cydradd

Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).

● Cymru o Gymunedau Cydlynol

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

● Cymru o Ddiwylliant Bywiog a'r Iaith Gymraeg yn ei Phrifant

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

● Cymru Gyfrifol

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai hyn gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.



Atodiad B: Sut mae ein Hamcanion Lles yn cyfrannu at y Nodau Lles Cenedlaethol

Amcanion Lles Bro Morgannwg ar gyfer 2019/20			7 Nod Lles Cenedlaethol						
			Cymru Lewyrchus	Cymru Gadarn	Cymru Lachach	Cymru fwy Cydradd	Cymru o Gymunedau Cydlynol	Cymru o Ddiwylliant Bywiog a'r iaith Gymraeg yn ei Phrifant	Gymru Gyfrifol
Bro Gynhwysol a Diogel	1	Lleihau tlodi a gwaharddiad cymdeithasol.	✓		✓	✓	✓		
	2	Darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel.	✓		✓	✓	✓		✓
Bro Lewyrchus sy'n Gyfrifol am yr Amgylchedd	3	Hyrwyddo gwaith adfer, twf economaidd a chyflogaeth.	✓		✓	✓	✓	✓	✓
	4	Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu'n hamgylchedd.	✓	✓	✓		✓		✓
Bro Uchelgeisiol a Diwylliannol Fywiog	5	Codi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol.	✓			✓		✓	
	6	Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth.			✓	✓	✓	✓	
Bro Heini ac Lach	7	Annog a hyrwyddo ffordd o fyw heini ac iach.			✓	✓	✓	✓	
	8	Diogelu pobl fregus a hyrwyddo byw yn annibynnol.			✓	✓	✓		

Atodiad C: Sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg

Amcanion Llesiant Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer 2019/20			Aliniad i Amcanion Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg			
			Amcan 1: Galluogi pobl i gymunedau lleol a llunio gwasanaethau lleol.	Amcan 2: Lleihau tlodi ac ymdrin ag anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd.	Amcan 3: Rhoi'r 'Cychwyn Gorau mewn Bywyd' i blant.	Amcan 4: Diogelu, gwella a gwerthfawrogi'r amgylchedd.
	1.		✓	✓	✓	
	2.		✓	✓	✓	✓
	3.		✓	✓		✓
	4.		✓	✓		✓
	5.			✓	✓	
	6.		✓	✓		✓
	7.		✓	✓	✓	✓
	8.		✓	✓	✓	

Atodiad D: Sut y byddwn yn mesur llwyddiant

Mae'r mesurau canlynol yn ffurfio Fframwaith Mesurau Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ac fe'u nodwyd i'n galluogi i ddangos cynnydd ar ein Hamcanion Llesiant a chynllunio integredig (Iechyd Corfforaethol). Maent yn cynnwys cyfuniad o ddangosyddion cenedlaethol a lleol, wedi'u dewis i adlewyrchu ehangder y gwasanaethau a ddarperir ar draws y Cyngor i gyflawni ein Hamcanion Llesiant a blaenoriaethau Iechyd Corfforaethol. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro a'i adrodd bob chwarter yn unol â'n Fframwaith Rheoli Perfformiad.

Amcan Llesiant		Mesurau perfformiad
1	Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol	CPM/043: Canran y llwyddiant ar gyrsiau achrededig ar gyfer dysgwyr â blaenoriaeth.
		CPM/104: Canran y plant Dechrau'n Deg sy'n cyflawni'r canlyniadau disgwylidig o leiaf (deilliant 5+) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
		CPM/105: Nifer y tenantiaethau sy'n cael eu cynnal o ganlyniad i gefnogaeth y Gwasanaeth Cyngori Ariannol/ Cyngor.
		CPM/107: Canran y defnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl sy'n cadarnhau bod y cymorth a gawsant wedi eu cynorthwyo i gynnal eu hannibyniaeth.
		CPM/002: Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon â mynediad at wasanaethau ar draws pob sianel.
		CPM/096: Canran presenoldeb mewn gofal plant Dechrau'n Deg.
		CPM/111: Canran o blant cymwys Dechrau'n Deg sy'n manteisio ar gynnig gofal plant.
		CPM/112: Canran y cleientiaid Cefnogi Pobl sy'n fodlon â'r gefnogaeth a gawsant.
		CPM/170: Canran y defnyddwyr sy'n dangos boddhad â gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf a gyrchwyd.
		CPM/065: Cyfanswm nifer y tanysgrifwyr i Gyswllt y Fro.
		CPM/130: Nifer yr aelwydydd digartref fesul 1,000 o'r boblogaeth.
2	Darparu cartrefi gweddus a chymunedau diogel	CPM/135: Canran yr holl droseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth.
		CPM/012: Canran yr holl aelwydydd lle llwyddodd camau atal cadarnhaol i atal/ lleddfu digartrefedd.
		CPM/026: Canran y bobl sydd wedi derbyn Grant Cyfleusterau i'r Anabl sy'n teimlo bod y cymorth wedi eu gwneud yn fwy diogel ac yn fwy annibynnol yn eu cartref eu hunain.
		CPM/124: Canran y dioddefwyr cam-drin domestig sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i wella diogelwch.
		CPM/234 (PAM/038): Canran o unedau stoc tai hunangynhaliol awdurdodau lleol sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), yn amodol ar fethiannau derbyniol, ar 31 Mawrth.
		CPM/235 (PAM/039): Canran y dyledion rhent a gollwyd oherwydd bod unedau llety parhaol yn wag yn ystod y flwyddyn.
		CPM/244: Cynnydd canrannol yn nifer yr achosion o drais domestig a gofnodwyd.
		CPM/010: Nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith i osod eiddo gwag (amod safonol). (Housemark).
		CPM/011: Canran y tenantiaid sy'n fodlon â gwaith SATC.
		CPM/027 (PAM/015): Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i gyflwyno Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG).
		CPM/030: Canran y tenantiaid a oedd yn fodlon â chanlyniad cwyn ymddygiad gwrthgymdeithasol. (Housemark)
		CPM/064 (PAM/013): Canran yr eiddo gwag yn y sector preifat a ddaeth yn ôl i ddefnydd yn ystod y flwyddyn trwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.
		CPM/245: Canran yr achosion o gau achosion o ganlyniad i ddiffyg presenoldeb/ DNA.
		CPM/246: Nifer y Cartrefi Cyngor newydd a ddatblygwyd.

Amcan Llesiant		Mesurau perfformiad
		CPM/237: Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a gafodd ganiatâd cynllunio yn ystod y flwyddyn.
3	Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth	CPM/078: Canran gwagleoedd ar gyfartaledd ym mhrif ganol trefi y Fro. CPM/087: Cyfanswm yr ymwelwyr â Bro Morgannwg at ddibenion twristiaeth (fel y'u mesurir gan arolwg STEAM). CPM/253: Cyfanswm yr ymwelwyr sy'n aros i Fro Morgannwg at ddibenion twristiaeth (fel y'u mesurir gan arolwg STEAM). CPM/254: Canran yr ymwelwyr sy'n aros ym Mro Morgannwg at ddibenion twristiaeth sydd ag arhosiad â gwasanaeth (mae hyn yn cynnwys gwestai, tai llety a gwely a brecwast) fel y'u mesurir gan arolwg STEAM. CPM/255: Canran yr ymwelwyr sy'n aros ym Mro Morgannwg at ddibenion twristiaeth sydd ag arhosiad heb wasanaeth (fel y'i mesurir gan arolwg STEAM). CPM/256: Canran yr ymwelwyr sy'n aros ym Mro Morgannwg at ddibenion twristiaeth sydd ag arhosiad SFR (aros gyda ffrindiau neu berthnasau) (fel y'i mesurir gan arolwg STEAM). CPM/257: Nifer y swyddi a grëwyd yn Ardal Fenter Bro Morgannwg. CPM/230: Canran y preswylwyr a arolygwyd sy'n ystyried canol ein trefi gan gynnwys y Barri, Penarth, Llanilltud Fawr a'r Bont-faen i fod yn lleoedd deniadol i ymweld â nhw a siopa ynddynt. CPM/079: Nifer yr ymweliadau wedi'u hwyluso â pharciau gwledig a'r arfordir treftadaeth. CPM/081: Nifer y cymunedau/ grwpiau a gefnogwyd i arwain ar gyflwyno projectau cymunedol. CPM/145: Nifer yr ymwelwyr â digwyddiadau penwythnos yn Ynys y Barri.
4	Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd	CPM/016: Canran yr achosion o dipio anghyfreithlon yr adroddwyd amdanynt sy'n arwain at weithgarwch gorfodi. CPM/018: Canran y gwastraff trefol a gasglwyd gan yr awdurdod lleol a ailgylchwyd. CPM/151: Canran y cynnydd mewn milltiroedd a wnaed gan fflyd ceir pwll y Cyngor. CPM/153: Canran y newid (gostyngiad) mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig. CPM/154: Canran o oleuadau stryd y Cyngor sy'n LED. CPM/006: Y newid canrannol yn y sgôr Tystysgrif Arddangos Ynni (DEC) ar gyfartaledd mewn adeiladau cyhoeddus awdurdod lleol dros 1,000 metr sgwâr. CPM/013: Y Mynegai Glendid. CPM/014 (PAM/010): Canran y priffyrdd a arolygwyd o safon glendid uchel neu dderbyniol. CPM/015: Canran yr achosion o dipio anghyfreithlon yr adroddwyd amdanynt a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith i'r digwyddiad gael ei adrodd. CPM/017: Canran yr oedolion 60+ sydd â thocyn bws rhatach. CPM/020 (PAM/018): Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol. CPM/021: Canran y ceisiadau cynllunio deiliaid tai y penderfynwyd arnynt o fewn 8 wythnos neu sy'n destun i Gytundeb Perfformiad Cynllunio neu Ymestyn yr Amser. CPM/023: Canran y penderfyniadau a wnaed yn groes i argymhelliad y swyddog. CPM/031: Canran y bobl sy'n fodlon â safonau glanweithdra. CPM/080: Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon â pharciau gwledig. CPM/155: Bodlonrwydd gyda thrafnidiaeth gyhoeddus gan gynnwys a) hygyrchedd a b) diogelwch ar y ffyrdd. CPM/156 (PAM/019): Canran yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau ceisiadau cynllunio a wrthodwyd. CPM/158: Bodlonrwydd y cyhoedd â'r cyfleusterau yn Ynys y Barri sydd wedi eu graddio fel 'Da' neu 'Ardderchog'. CPM/252: Canran y prif ffyrdd (A), ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. CPM/238: Canran y Strwythurau Peryglus a arolygwyd o fewn 1 diwrnod gwaith o'u derbyn.

Amcan Llesiant		Mesurau perfformiad
		CPM/239: Canran y ceisiadau Adeilad Rhestredig a benderfynwyd o fewn 8 wythnos neu sy'n destun i Gytundeb Perfformiad Cynllunio neu Ymestyn yr Amser.
		CPM/159: Nifer y m2 o diroedd Parciau, Mannau Agored a Phrifyrdd sydd wedi cael ei hau â blodau gwyllt neu sy'n cael ei gynnal fel ardal naturiol.
		CPM/161: Gwerth y buddsoddiad a wnaed yn y Cyngor a neilltuwyd i gynlluniau gwella trafndiaeth.
		CPM/164: Nifer y gwobrau traeth a gyflawnwyd.
		CPM/241: Swm yr arian a106 a sicrhawyd yn y flwyddyn ariannol.
		CPM/242: Swm yr arian a106 a wariwyd yn y flwyddyn ariannol.
5	Codi safonau cyflawniad cyffredinol	CPM/005: Canran y disgyblion PYDd yng Nghyfnod Allweddol 2 a gyflawnodd y safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.
		CPM/041: Canran y disgyblion PYDd ym mlwyddyn 11, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy lefel 2 gan gynnwys graddau TGAU A* -C mewn Saesneg, Cymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg.
		CPM/042: Canran o ddisgyblion Blwyddyn 11 nad ydynt yn cael PYDd, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd drothwy lefel 2 gan gynnwys graddau TGAU A* - C mewn Saesneg, Cymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg.
		CPM/043: Canran llwyddiant ar gyrsiau achrededig ar gyfer dysgwyr â blaenoriaeth.
		CPM/044: Canran yr holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig yn Saesneg.
		CPM/045: Canran y disgyblion PYDd yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig yn Saesneg.
		CPM/046: Canran y disgyblion nad ydynt yn cael PYDd yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig yn Saesneg.
		CPM/047: Canran yr holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.
		CPM/048: Canran y disgyblion nad ydynt yn cael PYDd yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.
		CPM/049: Canran holl ddisgyblion Blwyddyn 11 (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal) mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr ALI, sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy.
		CPM/050: Canran holl ddisgyblion LAC Blwyddyn 11 mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr ALI, sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy.
		CPM/092: Canran o ddisgyblion blwyddyn 11 sy'n cyflawni trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A* -C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol.
		CPM/104: Canran y plant Dechrau'n Deg sy'n cyflawni o leiaf y canlyniadau disgwyliedig (deilliant 5+) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
		CPM/167a (PAM/009): Canran y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET).
		CPM/167b: Canran y bobl ifanc sy'n gadael Blwyddyn 12 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
		CPM/168a: Canran o ddisgyblion Blwyddyn 11 sy'n ennill 5 TGAU neu fwy ar raddau A* i A ar gyfer pob disgybl.
		CPM/168b: Canran o ddisgyblion Blwyddyn 11 PYDd sy'n ennill 5 TGAU neu fwy ar raddau A* i A.
		CPM/168c: Canran o ddisgyblion Blwyddyn 11 heb PYDd sy'n ennill 5 TGAU neu fwy ar raddau A* i A
		CPM/250: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni Canlyniad 5, fel y'i pennwyd gan Asesiad Athrawon.
		CPM/034: Canran y diwrnodau ysgol a gollwyd oherwydd gwaharddiadau cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn academaidd mewn ysgolion cynradd.
		CPM/035: Canran y diwrnodau ysgol a gollwyd oherwydd gwaharddiadau cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn academaidd mewn ysgolion uwchradd.
		CPM/036 (PAM/007): Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd.

Amcan Llesiant		Mesurau perfformiad
		CPM/037 (PAM/008): Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd.
		CPM/038: Canran y datganiadau terfynol o Anghenion Addysgol Arbennig a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos gan gynnwys eithriadau.
		CPM/039: Canran y datganiadau terfynol o Anghenion Addysgol Arbennig a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos ac eithrio eithriadau.
		CPM/052: Nifer y canlyniadau achrededig a gyflawnwyd gan ddysgwyr drwy'r Gwasanaeth Ieuencid.
		CPM/091: Canran yr ysgolion y barnwyd eu bod yn dda neu'n well gan Estyn (ym mhob un o'r 5 barn).
		CPM/170: Canran y defnyddwyr sy'n dangos boddhad â gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf a gyrchwyd.
6	Gwerthfawrogi diwylliant amrywiaeth ac	CPM/174: Canran y bobl sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn.
		CPM/175: Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy na dim ond ychydig eiriau o'r Gymraeg.
		CPM/072: Cyflymder cyfartalog yr atebion ar gyfer galwadau ar y llinell Gymraeg (eiliadau).
		CPM/077: Canran yr ymatebwyr du, lleiafrifol ac ethnig i ymgynghoriadau corfforaethol ac ymarferion ymgysylltu.
		CPM/080: Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon â'r parciau gwledig.
		CPM/088: Canran boddhad ymwelwyr â Phroject Arfordir Treftadaeth fel y'i pennwyd drwy arolwg boddhad.
		CPM/051: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth.
		CPM/180: Canran o staff y Cyngor sy'n cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i gynyddu dealltwriaeth o ddyletswyddau'r Cyngor o dan Safonau'r Gymraeg.
		CPM/181: Nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg.
7	Annog a hyrwyddo ffyrdd o fyw egniol ac iach	CPM/187: Canran y cleientiaid sy'n defnyddio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a ddywedodd eu bod wedi gwella eu hansawdd bywyd.
		CPM/191: Canran yr oedolion sy'n dweud eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon/ gweithgarwch corfforol dair gwaith neu fwy yr wythnos.
		CPM/236: Canran y cleientiaid camddefnyddio sylweddau problemus sy'n cael triniaeth sy'n cynnal neu'n lleihau eu camddefnyddio sylweddau.
		CPM/096: Canran presenoldeb mewn gofal plant Dechrau'n Deg.
		CPM/111: Canran o blant cymwys Dechrau'n Deg sy'n manteisio ar gynnig gofal plant.
		CPM/170: Canran y defnyddwyr sy'n dangos boddhad â gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf a gyrchwyd.
		CPM/192: Nifer y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y cynllun 5x60.
		CPM/196: Canran o ysgolion y Cyngor sy'n cynnig dewisiadau bwyd iach.
		CPM/248: Canran yr unigolion sy'n gadael triniaeth camddefnyddio sylweddau mewn ffordd gynlluniedig.
		CPM/249: Canran y cychwyniadau triniaeth camddefnyddio sylweddau o fewn 20 diwrnod gwaith.
		CPM/028: Nifer y clybiau chwaraeon sy'n cynnig cyfleoedd anabledd cynhwysol neu benodol.
		CPM/197: Nifer y Parciau Baner Werdd.
8	Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol	CPM/060 (SSM/027): Canran ailgofrestru plant ar Gofrestrau Amddiffyn Plant (CPR) yr awdurdod lleol.
		CPM/098: Canran y defnyddwyr gwasanaeth oedolion sy'n derbyn taliad uniongyrchol.
		CPM/203: Canran yr oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a adroddwyd fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn.
		CPM/026: Canran y bobl sydd wedi derbyn Grant Cyfleusterau i'r Anabl sy'n teimlo bod y cymorth wedi eu gwneud yn fwy diogel ac yn fwy annibynnol yn eu cartref eu hunain.
		CPM/050: Canran holl ddisgyblion LAC Blwyddyn 11 mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr ALI, sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy.

Amcan Llesiant		Mesurau perfformiad
		CPM/057 (SSM/019) (PAM/025): Canran yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn.
		CPM/058 (SSM/020a): Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi a) ac sydd â phhecyn gofal a chymorth is 6 mis yn ddiweddarach.
		CPM/059 (SSM/020b): Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi b) ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach.
		CPM/107: Canran y defnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl sy'n cadarnhau bod y cymorth a gawsant wedi eu cynorthwyo i gynnal eu hannibyniaeth.
		CPM/056 (SSM/018): Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol.
		CPM/112: Canran y cleientiaid Cefnogi Pobl sy'n fodlon â'r gefnogaeth a gawsant.
		CPM/206: Canran y cwsmeriaid teleofal sy'n fodlon â'r gwasanaeth monitro teleofal.
		CPM/207: Canran y cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer oedolion a adolygwyd o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt (set ddata interim LIC).
		CPM/208: Canran y cynlluniau gofal a chymorth ar gyfer plant a adolygwyd o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt (set ddata interim LIC).
		CPM/209: Nifer y defnyddwyr Teleofal newydd.
9	Iechyd corfforaethol	CPM/019 (PAM/001): Nifer y diwrnodau/ sifftiau gwaith fesul cyflogai cyfwerth ag amser llawn (CALI) a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch yn ystod y flwyddyn.
		CPM/212: Nifer y diwrnodau gwaith/ shiftiau fesul cyflogai cyfwerth ag amser llawn (CALI) a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch tymor byr.
		CPM/213: Nifer y diwrnodau/ sifftiau gwaith fesul cyflogai cyfwerth ag amser llawn (CALI) a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch tymor hir.
		CPM/210: Trosiant gweithwyr (gwirfoddol).
		CPM/211: Canran yr arfarniadau staff a gwblhawyd.
		CPM/214: Gwario yn erbyn rhaglen refeniw gymeradwy'r Cyngor.
		CPM/215: Gwario yn erbyn rhaglen gyfalaf gymeradwy'r Cyngor.
		CPM/216: Perfformiad yn erbyn targedau arbedion.
		CPM/217: Perfformiad yn erbyn targedau Ail-lunio Gwasanaethau y cytunwyd arnynt.
		CPM/219: Canran o gontractau'r Cyngor yr ymgwymerwyd â hwy drwy fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.
		CPM/221: Nifer yr asedau a drosglwyddwyd i'r gymuned.
		CPM/153: Canran y newid (gostyngiad) mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig.
		CPM/001: Canran yr ymholiadau gan gwsmeriaid i C1V a gafodd eu datrys ar y cyswllt cyntaf.
		CPM/002: Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon â mynediad at wasanaethau ar draws pob sianel.
		CPM/076: Canran y preswylwyr sy'n fodlon â chyfathrebu gan y Cyngor.
		CPM/077: Canran yr ymatebwyr du, lleiafrifol ac ethnig i ymgynghoriadau corfforaethol ac ymarferion ymgysylltu.
		CPM/084: Argraffiadau dyddiol cyfartalog a gyflawnwyd gan gyfrif Twitter @VOGCouncil.
		CPM/086: Cyrhaeddiad dyddiol cyfartalog tudalen Facebook Bywyd Bro Morgannwg.
		CPM/222: Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon ar y cyfan â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.
		CPM/223: Canran y cwynion Corfforaethol yr ymdriniwyd â hwy o fewn yr amserlenni targed.
		CPM/224: Canran y cwynion Corfforaethol a ddatryswyd yng Ngham 1.
		CPM/225: Canran y cwynion Corfforaethol a ddatryswyd yng Ngham 2.
		CPM/226: Nifer y cwynion Ombwdsmon a gadarnhawyd yn erbyn y Cyngor (gan gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol).
		CPM/240: Nifer y cwynion corfforaethol sy'n mynd ymlaen i Gam yr Ombwdsmon nad ydynt yn cael eu hystyried yn gynamserol nac allan o awdurdodaeth
		CPM/227: Bodlonrwydd gyda'r broses o siarad cyhoeddus mewn pwyllgorau.

Amcan Llesiant	Mesurau perfformiad
	CPM/231: Cyflymder cyfartalog yr ateb ar gyfer galwadau sy'n dod i mewn i'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid.
	CPM/007: Canran y galwadau/ tocynnau y ddesg gwasanaeth a ddatryswyd o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.
	CPM/008: Canran o argaeledd gwasanaeth yr 20 prif system TGCh.
	CPM/243: Cynnydd canrannol mewn defnyddwyr gweithredol yr ap
	CPM/100: Canran y rhai sy'n manteisio ar y gwasanaeth Hyrwyddwr Digidol sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio TGCh o ddydd i ddydd.